


# Y Llien Gwyn

Papur Bro Abergwaun a'r Cylch

RHIF 435 | RHIFYN MEDI-HYDREF 2020 | AR Y WE


# RHIFYN ELECTRONIG RHIF TRI

Os yw'n well gennych ddarllen papur na sgrin, gellwch ei argraffu'n rhwydd

## Os yw hi wedi bod yn 'gyfnod cloi', ni ddaeth y cystadlu a'r dathlu i ben ym mhob man.










**LLONGYFARCHIADAU I**

Llion Harries a Preseli Fly y ci defaid, enillwyr 'Ffermio: Treialon y Cŵn'; i deulu lleol sy'n mentro i fusnes gwerthu llaeth mewn potel 'Carningli Dairy; i Allison a staff 'The Flower Garden' yn dathlu deunaw mlynedd mewn busnes yn Abergwaun, ac i holl gystadleuwyr 'Carnifal Rhithwir Cwm Gwaun'. 'Sneb yn ardal 'Y Llien Gwyn' wedi bod yn segur yn ddiweddar! Mae'r hanesion i gyd yn y rhifyn hwn









## Y Llien Gwyn - Pwy sy'n neud beth

**Y PANEL GOLYGYDDOL**
Bonni Davies, Penlanwynt, Cwm Gwaun (01239 820333); Morys Rhys, Sgubor, Dinas (01348 811497); Lowri Williams, Maes Waldo, Abergwaun (01348 872819).

**TRYSORYDD**
Ann Hughes, Glandy, Dinas, Trefdraeth, SA42 0XP (01348 811255).

**SWYDDOGION HYSBYSEBU**
Iona a Meirion Williams, Pontiago (01348 891656)

**CYSODWYR**
Hedydd Hughes, Bonni Davies, Alwyn Daniels. **Cysodydd y mis hwn:** Hedydd

**DARLLEN PROFLENNI:** Morys Rhys, Lowri Williams..

**Y LLIEN GWYN DRWY'R POST**
Ann Hughes, Glandy, Dinas, Trefdraeth, SA42 0XP

**GOLYGYDDION Y COLOFNAU**
**Portreadau** - Morys Rhys; **Myfi, Tydi, Efe -** Y Parchg Geoffrey Eynon; **Colofn Amaethyddol** - Dafydd Williams; **Golwg ar y Ganrif Gynt** - Martin Lewis. **Tudalen y Plant -** Glan Rees

**CYLCH TREFDRAETH**
**Gohebwyr:** Dinas - Y Parchg Alwyn Daniels (01348 811430); Cwm Gwaun - Bonni Davies (01239 820333); Llanychaer - Delyth Jenkins (01348 872704).

**CYLCH ABERGWAUN**
**Gohebwyr:** Abergwaun - Glesni James (873965), Margaret Watts (872745), Pencaer - Lowri Williams, Maes Waldo, (01348 872819); Tremarchog - Kay Williams. (01348 891638).

**CYLCH CASBLAIDD**
**Cysylltwr a Gohebydd:** Brian Jones. Treletert - Ian Williams, Dros Dro; Casmael - Bethan Williams, Y Wern, Casmael; Casnewydd Bach - Richard Davies, North Gate.
**TEIPYDD**: Glesni James, Abergwaun (01348 873965)

Cyhoeddwyd a chysodwyd *Y Llien Gwyn* gan y Bwrdd Golygyddol ac fe'i argraffwyd gan E. L. Jones a'i Fab, Aberteifi. Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yng ngholofnau'r papur.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**


# PORI YM MYD AMAETH

Shwt i chi i gyd ? Ond ydyn ni mewn sefyllfa ryfedd! Un cyfnod o'r haint ddifrifol wedi mynd ac un arall yn gyflym ddatblygu nawr yng nghanol mis Medi. Yn ffodus iawn mae'r sefyllfa yma yng Nghymru mymryn yn well ar y cyfan nag ar draws y ffin. Hyn yn f'atgoffa o gwestiwn sy'n mynd o gwmpas yn yr Almaen. "Beth sy'n ffinio ar wallgofrwydd llywodraethol?" Yr ateb yn ôl wyres sy'n byw yno ydy "Cymru a'r Alban". O leiaf mae'r Almaenwyr yn gweld bod synnwyr cyffredin yn creu cymuned ddiogelach.

Wrth sôn am "wallgofrwydd llywodraethol" mae agwedd bresennol Prif Weinidog Prydain tuag at iechyd ariannol y wlad yn rhyfedd. Rwy'n dal i feddwl bo cydweithio yn well na chreu trafferthion wrth farchnata. Ar ben hynny mae datgan eich bod yn paratoi i dorri cytundeb rhyngwladol yn annhebyg o hwyluso unrhyw drafodaeth ar farchnata gyda darpar bartneriaid newydd. Mae hyn yn bwysig i bawb, ond yn enwedig i ffermwyr Cymru. Rhaid gobeithio mai bygythiad ffôl a difeddwl oedd gwneud hyn wrth geisio bod yn gadarn mewn trafodaethau. Rwy'n gobeithio y bydd gwrthwynebiad cymaint o bobl i'r syniad gwrthun 'ma yn llwyddiant.

Dal i rygnu mlaen mae'r drefn o geisio datblygu polisi dyfodol amaeth a chefn gwlad Llywodraeth Cymru. Mae'r syniadau yn dal i wyro tuag at drosglwyddo canran lawer uwch, o unrhyw arian fydd ar gael, tuag at yr amgylchfyd.

Fel gyda phob newid sylfaenol mae'r syniadau yn creu cynnwrf ymysg ffermwyr, eu cynrychiolwyr ac ymysg pawb sydd yn gofidio am y ffordd mae grym hinsawdd y byd yn dangos ei hun. Gan mai trafod y dyfodol yw'r pwnc, roeddwn yn disgwyl llawer mwy o sylw i hyn yn y ddogfen newydd. Pan fo'r newyddion yn sôn am danau yn nhalaith Oregon o'r UDA sy'n fwy o ardal na holl diriogaeth Cymru; taleithiau de'r UDA yn diodde' mwy o gorwyntoedd a llifogydd nag erioed o'r blaen; sychder parhaol parthau amaethyddol India wedi achosi mwy na 18,000 o hunan laddiadau ymysg ffermwyr oherwydd methu talu dyledion; prinder dŵr mewn nifer o wledydd; poblogaethau yn newynu a cheisio symud ohono, onid yw hi'n amser i dalu sylw? Hynny yw talu sylw a thrafod nawr. Trafod beth yw'r posibiliadau, pa gnydau, pa anifeiliaid a phwy yw ein cwsmeriaid?

Mae sôn ei fod yn gyfrifoldeb ar ffermwyr i geisio darparu bwyd i bawb. Sôn hefyd bo mwy na digon yn cael ei gynhyrchu nawr. Yn anffodus y diffygion oherwydd tlodi, dosbarthu a gwastraff sy'n creu'r prinder. A ydyn ni'r ffermwyr yn anghofio edrych yn ddigon manwl ar ein harferion a'n cynnyrch cyn beio'r archfarchnadoedd a'u cwsmeriaid ynglŷn â gwastraff? Fe fûm i'n cynhyrchu nifer o eidion a channoedd o ŵyn am flynyddoedd. Tan i mi ddarllen llyfr ar fwyd y dyfodol yn ddiweddar wnes i ddim sylweddoli sawl can tunnell o wastraff oedd wedi gadael y ffarm hon. Gwastraff o berfedd, esgyrn ac ati oedd wedi cael dŵr, bwyd a gofal, ond yn wastraff !
Gofal pia hi.

*Hwyl am y tro,*
*Dafydd*


**AWEN TEIFI**

Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a recordiau

***Ar agor 9 - 5.30yh***
***Llun i Sadwrn***

& **01239 621370**
**23 Stryd Fawr**
**Aberteifi. SA43 1HJ**



**TAFARN SINC**

**01437 532214**

**Gofynnwch am fwydlen pryd i fynd**

***www.tafarnsinc.cymru***



***Cewch fwyd, clonc a chwrw da***

**Awgrymir cadw ford**

**'Aelwyd pob ymwelydd'**

# *Golwg ar y ganrif gynt*

gyda Martin Lewis

Clywsom dipyn y flwyddyn hon am dydd y Fuddugoliaeth ar y Cyfandir *(V.E.Day)*,- y dydd amser gwnaeth y Prif Weinidog ar y pryd, yr anrhydeddus Sir Winston Churchill, gyhoeddi fod yr Almaen wedi ildio a rhoi'r gorau i'r rhyfela a'r ymladd oedd wedi para' dros gyfnod o bron i chwe' mlynedd. Ar y teledu, gwelsom bobl o'r cyfryngau'n holi hen bobl, a gofyn iddynt beth oeddent yn gofio am y rhyfel, y dydd â'r dathlu,- a 'nawr, dyma fi yn un ohonynt!

Cefais fy ngeni ar ddechrau'r flwyddyn 1940, felly fe fues byw drwy'r rhan fwyaf o'r cyfnod yma. ' Roeddem yn byw ym Morawel, Ffordd y Parrog, Tydrath, ar y pryd, ac 'rwyn cofio bod mewn dychryn o weld y dyn yma yn dychwelyd i'r tŷ yn yr hwyr, wedi ei wisgo mewn dillad du a 'helmet' du tal ar ei ben. Nid oeddwn yn 'nabod fy nhad, ond fe fu'n blismon am ychydig yr adeg yma fel rhan o'i gyfraniad tuag at ymdrech y rhyfel.

Ym 1943, symudom fel teulu i fyw drws nesa' lawr i Gapel Hermon, Abergwaun, am dair mlynedd. 'Roedd fy nhad yn prynu pob cyfrol o'r *Picture Post*, a gyhoeddwyd yn wythnosol os 'rwyn cofio'n iawn. Ynddo, byddwn yn gweld lluniau o'r ymladd, y brwydro â'r llanastr mewn pob rhan o'r byd. 'Roedd yn gymharol ddi-ystyr i mi, ond credais ei fod yn hollol dwp, - dynion yn lladd ei gilydd, llosgi tai ac eiddo gwerthfawr,- disynnwyr hyd yn oed i mi, a minnau dim ond yn bedair blwydd oed. Cofiaf hefyd deimlo'r gofid a'r pryder a deimlai fy nhad,- wedi'r cyfan, 'roedd Hitler wedi concro gweddill y cyfandir, a Phrydain Fawr fyddai nesa' ?

Ac eto, bach iawn o hyn a welsom yn Abergwaun. 'Roedd rhywbeth a alwyd yn 'seiren' ochr draw y ffordd, tu ôl i'r llyfrgell yn y stryd fawr, a byddai hwn yn gwneud rhyw sŵn ofnadwy am bedwar o'r gloch bob prynhawn Dydd Llun. Petasai yn canu ar unrhyw adeg arall, byddai'n rhaid i ni redeg a chwato rywle rhag i ni gael ein bomio gan awyrennau'r gelyn, 'Roedd Mam yn ystyried y byddai'r 'cwtsh dan stâr' yn gwneud y tro at y pwrpas yma. 'Roedd rhaid gwisgo *gas mask* hefyd,

Nid wy'n cofio am unrhyw brinder bwyd yn ystod y rhyfel, ac eto, 'rwyn cofio am y llyfrau cyfran *(ration books)* amser fyddai'r gwerthwyr yn torri allan rhyw ddarn bach o bapur o'r llyfr. Gan fod fy nhad yn mwynhau pysgota, yn yr haf, a saethu yn y gaeaf, fe ddaeth yn gyfeillgar gyda nifer o ffermwyr lle bu'n gwneud y pethau hyn. Heblaw am y pethau y byddai'n saethu, ac hefyd y pysgod fyddai yn eu dal, 'roedd hefyd digon o fwyd fel menyn, wyau a chaws o hyd ar y bwrdd. 'Rwyn cofio Mrs Young yn dweud wrth Mam rhyw dro, "Ma rhywbeth da fi i chi Mrs Lewis", a dyma hi'n chwilio o dan y cownter, a dod lan a thair banana yn ei llaw,- ffrwyth nad oeddwn wedi ei weld erioed o'r blaen,- un i mi, un i'm chwaer a'r llall i'm rhieni. 'Roedd blas bendigedig arni unwaith 'roeddwn wedi tynnu'r croen!!



**Y Tanc Milwrol**

Pob nos Sadwrn, fel rhan o baratoi ar gyfer mynd i'r capel ar fore Dydd Sul, byddai Mam yn sgrwbio fy ngwddwg yn ddidrugaredd gyda clwtyn garw a *Phersil* nes fod fy ngwddwg mor dost a choch a chig eidon. Dibwrpas oedd ceisio esbonio iddi na fyddai brown yr haul yn dod o na ta faint y byddai'n sgrwbio.

Ond y peth rhyfedd oedd fod y broses yma wedi digwydd rhyw fore yng nghanol yr wythnos. 'Roedd rhywfaint o gyffro yn yr aer, cinio gynnar, dydd annisgwyl o wyliau in nhad. Minnau yn gorfod gwisgon nillad Dydd Sul,- trowsus byr llwyd, crys gwyn a thei goch, ag eto, 'doedd y Sabbath ddim wedi cyrraedd, a Mam hefyd wedi gwisgo fel petasai yn mynd i Hermon.

Cinio drosodd, a dyma ni i gyd yn gadael y tŷ. Yr *High Street* yn llawn bobl yn symud lawr at y sgwâr, - pawb mewn hwyle' da,- milwyr di-ri yn canu aa. 'Roedd Mam wedi esbonio i mi, oni bai am Llundain, mai Abergwaun oedd y lle mwyaf ei maint a'i phwysigrwydd yn y byd. O weld y dyrfa o bobol ar y sgwâr, 'roeddwn yn ei chredu,- brechdanau, creision, ham, sosejis, jeli, te, pop 'corona',- faint fynnoch.

Ond beth wnaeth ddal fy llygad oedd y tanc milwrol o flaen y farced,- peiriant gwyrdd tywyll gydag olwynion rhyfedd di-ri, a dryll enfawr ar ei blaen, a dyma fe'n symud o na, yr injan yn chwyrnu, a mynd lan y stryd fawr. Rhyfedd iddo ddychwelyd rhyw ugain munud yn ddiweddarach, minnau yn syllu i weld rhyw ugain o blant yn cael eu codi allan o grombil y tanc. Ar ôl cyfnod hir o boeni Mam, dyma hi'n ildio a chytuno y cawn fynd yn y tanc. Draw â ni ac ymuno â'r ciw hir o blant,- a dyma'n nhro i'n dod,- un milwr yn cydio o dan fy mreichiau, a'r llall yn cydio yn fy nwylo, a'm codi a'm rhoi i lawr drwy'r twll ar ochr ucha'r cerbyd. Amser oedd tua ugain ohonom ni blant yn eistedd ar y llawr, dyma filwr arall yn sgriwio'r caead lawr, a ninnau i gyd yn eistedd mewn tywyllwch llwyr. Dyma'r peiriant yn dechrau chwyrnu a 'chlancian' ar hyd y ffordd, y plant yn gwrando a chlebran. Ar ôl rhyw ddeg munud, dyma'r 'clancian' yn gorffen a'r peiriant yn troi cyn i'r sŵn ail ddechrau. Ar ôl rhyw ddeg munud arall, dyma ni nôl ar sgwâr Abergwaun. 'Roeddem i gyd wedi eistedd mewn tywyllwch llwyr am ugain munud neu ragor, pob un ohonom wedi cael amser bendigedig ac enjoyo'r antur mas draw.

Dydd bendigedig bythgofiadwy.

CYMRAEG CYMRAEG CYMRAEG

# MYFI, TYDI, EFE

Odych capel neu'ch eglwys chi wedi ail-agor 'to? Wedi'r cyfnod hir o orfod bod ar gau oherwydd y Covid-19 ac yna wynebu cant a mil o ganllawiau cyn ei bod hi'n bosib ail-agor y drysau, mae llu o swyddogion eglwysi wedi bod yn crafu pen yn ddantlyd iawn wrth wynebu'r her. Ac yna yn y dyddiau hyn wrth i mi ysgrifennu'r geiriau hyn, mae'r cyfyngiadau ar gymdeithas yn cael eu tynhau unwaith eto.

Dros y misoedd diwethaf collwyd cyfleoedd i fod mewn priodasau ac angladdau, mewn cymanfaoedd canu a phwnc, mewn cynadleddau ac oedfaon y Sul a digwyddiadau cymdeithasol yn yr wythnos. A nawr, wrth i ni wynebu oedfaon lle mae'n rhaid cadw pellter a gwisgo mygydau, heb fedru canu na chymuno, mae rhywun yn gweld yr holl beth yn groes i natur eglwys, oherwydd cymdeithas yw eglwys, - cymdeithas o bobl sy'n closio at ei gilydd yn enw Iesu.

Wrth i ganllawiau ail-agor gael eu hystyried a'u trafod fe glywn nifer o eglwysi yn dweud nad ydynt yn barod i wynebu'r holl ofynion ac nad oes ganddynt yr hyder i ail gwrdd. Mae hynny'n gwneud i ni ofyn y cwestiwn, sut eglwysi fyddwn ni yn y dyfodol? Bu cryn drafod ar y cwestiwn hwn gyda sawl erthygl yn ymddangos mewn papurau ac ar y we ac ar y cyfryngau cymdeithasol, a sawl un o'r rheiny yn ein herio i fod yn eglwysi gwahanol ar ôl y cyfnod hwn.

Rhai yn dweud bod rhaid parhau gyda'r ddarpariaeth dechnegol lle gwelwyd cymaint o oedfaon yn cael ei darlledu ar youtube a 'facebook' neu'n cael eu hanfon allan ar e-bost. Bu rhai yn rhybuddio os mai dim ond ymdrechu i gael pethau'n ôl fel yr oedden nhw yw'r dymuniad, cystal cyfaddef ein methiant i ddysgu. Ac yn sicr pwysleisiwyd bod angen gweddi yn gofyn am arweiniad i'r hyn ddylen ni fod wedi dysgu dros y misoedd diwethaf.

Darllenais am un nad oedd yn edrych mlaen i fynd nôl i'r capel. Roedd e'n dweud nad oedd e wedi colli ei ffydd, os rhywbeth roedd honno wedi cael ei chryfhau yn ystod y cyfnod hwn. Ei ofid oedd nad oedd e'n rhan o eglwys a oedd yn gweithredu'r Bregeth ar y Mynydd, a'i bod yn rhy barod i amddiffyn ei hen ffyrdd o weithredu ac addoli, yn hytrach na chroesawu her y cyfnod hwn. Bod yn fodlon ar bethau fel y maen nhw, a bod hynny'n iawn tra fyddan nhw!

Wel, beth bynnag, i chi'n sy'n darllen y geiriau hyn, boed yn fynychwyr lle o addoliad neu beidio, fe sylweddolwn fod pawb ohonom ni wedi gorfod arfer â phethau'n wahanol iawn yn ystod y misoedd diwethaf ac y bydd rhaid i ni edrych ar sefyllfa cymdeithas yn gyffredinol yn wahanol i'r dyfodol. Ond galw arnom i fod yn weithredwyr ei gariad ym mha bynnag sefyllfa bynnag y cawn ein hunain ynddi mae Iesu o hyd.

Parchg. Alwyn Daniels

**DIRWESTWR FFYDDLON.**

SYR,—Os gwelwch yr hanesyn isod o werth i ymddangos yn y CRONICL, y mae at eich gwasanaeth.

*Trefgarn, Tach.* 11, 1846. J. GRIFFITHS.

YN y mis diweddaf ymwelodd ystorm aruthrol â thueddau Abergwaun, swydd Benfro, pryd y dinystriwyd llawer o longau, ac y collwyd llawer o fywydau mewn un noswaith. Yn y bore pan aed allan, canfyddwyd draw ar y cefnfor garw ddyn yn gafaelyd am ddernyn o graig, ag oedd weithiau yn amlwg rhwng y tònau ymchwyddedig. Pan aed ato, cafwyd ei fod yno yn ymladd yn galed am ei fywyd er tua hanner nos; fod y llong a'i gydforwyr wedi myned i'r gwaelod, ac mai efe yn unig oedd yn ddihangol; a'i fod yn enedigol o Ysgotland.—Cafwyd ef i dir yn ddiogel, ac aed ag ef i dŷ yn nhref Abergwaun i gael lluniaeth. Yn y lle blaenaf cynnygiwyd iddo wydraid o *frandy*. "Na, dim i fi," oedd yr atebiad. Ar hyn cynnygiwyd gwydraid o win iddo. "Dim o hono i mi, diolch i chwi," ebe y *Scotchman*. "Cymerwch ef, fe wna ddaioni mawr i chwi, wedi bod yn y môr drwy'r nos." "Na chymeraf." "Paham na wnaech?" "*Wel, yr wyf yn* DDIRWESTWR *er's saith mlynedd*."

Yn y cyfnod pryderus hwn, mae sôn bod pobl wedi defnyddio y 'cyfnod cloi' ar gyfer pwrpasau amrywiol - nifer yn llesol a nifer yn creu problemau pellach.iddynt. Mae'r newyddion wedi cario penawdau am gamddefnydd alcohol ymhlith canran uwch o'r boblogaeth.

Nid yw hyn yn newydd, wrth gwrs - hen stori yw. Mae'r erthygl fach hon, sy'n dyddio o 1846 yn sôn am ŵr a oedd yn deall y peryg bod alcohol yn gallu bod yn 'fagal' i'w helpu, neu'n 'fagl' i'w lorio!'

## CADW MEWN CYSYLLTIAD: ADNODDAU AR Y WE

Mae rhai eglwysi'n darlledu oedfaon ar YouTube, ar lein ac ar y Cyfryngau Cymdeithasol trwy gyfnod y feirws. Ceir rhestr llawn ar wefan Cyngor yr Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com Yn ogystal â hyn cewch wybodaeth ar wefannau'r enwadau: www.buw.org.uk; annibynwyr.org; www.ebcpcw.cymru; cym.eglwysyngnghymru.org.uk


**Maenclochog Hardware**

Trebengych, Rosebush, Clunderwen, Sir Benfro
Rhif ffon: 01437 532478 Ffacs: 01437 532918
E-bost: arfon.williams@btinternet.com
Oriau agor: 9–5 Llun-Gwener;
Ar Gau ddydd Sadwrn, dydd Sul ac ar Wyliau Banc

***Cyflenwyr pob math o offer amaethyddol: Gatiau, porthwyr a deunyddiau ffensio. Deunyddiau adeiladu, blociau concrid, tywod, sment, pibau draenio. Dewis da o offer caledwedd a deunyddiau. Detholiad mawr o ffitiadau dŵr a phibellau. Hefyd bwydydd ceffylau ac anifeiliaid anwes.***

Cyfarwyddiadau: Cymerwch droad Twffton bant o'r ffordd fawr rhwng Maenclochog a Rosebush. Ni yw'r buarth cyntaf ar y chwith.

# Sgwrs gyda Jennie Welton, Dysgwr y Flwyddyn Sir Benfro




**Ym mis Mehefin y llynedd enillodd Jennie Welton wobr Dysgwr y Flwyddyn Sir Benfro. Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn wahanol i bawb gan gynnwys Jennie. Cyn y cyfnod clo roedd hi'n gweithio fel Therapydd Iaith a Lleferydd, ond yn ystod y cyfnod roedd hi'n dysgu ei dwy ferch o adre.**

"Dysgon ni am arwyr lleol Jemima Nicholas a Barti Ddu a darllenon ni lawer o lyfrau Roald Dahl yn Gymraeg. Dysgais i lawer o bethau a gobeithio dysgodd y merched rhywbeth hefyd!"

Ym mis Mawrth symudodd Dysgu Cymraeg Sir Benfro sy'n darparu dosbarthiadau wythnosol ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddysgu dosbarthiadau ar-lein. Cynigwyd clybiau clonc a nosweithiau cwis i ddysgwr o bob lefel trwy gydol y cyfnod.

"Mwynheuais i ymuno gyda'r clwb clonc ar-lein, roedd yn hyfryd cael cyfle i ymarfer fy Nghymraeg adre gyda phaned o de! Roedd y botwm *'mute'* yn ddefnyddiol pan oedd y plant yn gwneud gormod o sŵn!"

Yn ogystal â bod ar-lein, mwynhaodd Jennie gerdded yn ei hardal leol a chael cyfle i siarad gyda'i chymdogion sydd yn siaradwyr Cymraeg ym Mrynberian.

Bydd Jennie yn dechrau dosbarth Uwch ar-lein ar ddiwedd mis Medi ac yn edrych ymlaen at ailddechrau dosbarthiadau wythnosol unwaith eto:

"Mae Dysgu Cymraeg Sir Benfro yn cynnig llawer o brofiadau dysgu gwych ar-lein, mae'n gyfle i gwrdd â phobl newydd ac i ddysgu ar yr un pryd. Dw i'n annog unrhyw un i ddechrau ac ymuno yn yr hwyl!"

Os hoffech chi wella eich Cymraeg ewch i http://bit.ly/DCSBenfro neu os allwch chi fod yn rhan o'r cynllun 'Siarad' sy'n paru dysgwyr a siaradwyr rhugl e-bostiwch learnwelsh@pembrokeshire.gov.uk.



**LLUNIAU: Jennie Welton, Dysgwr y Flwyddyn Sir Benfro ar y top ac uchod: Jennie Welton yn llun gyda'i dwy ferch.**

# POTEL O LAETH AR STEPEN Y DRWS FEL 'SLAWER DYDD

Mae teulu a fu'n ffermio yn ardal Tydrath ers dros gan mlynedd wedi mentro camu ymlaen mewn amaeth wrth gamu yn ôl - camu nôl i hen draddodiad.

O ddiwedd mis Medi ymlaen, fe fydd aelwydydd yn yr ardaloedd o gwmpas Tydrath yn gallu dewis cael potel o laeth wedi ei gadael iddynt ar stepen y drws – rhywbeth na fu'n opsiwn iddynt ers sawl blwyddyn. Ar ben hynny fe fyddant yn gallu prynu llaeth sydd wedi cael ei gynhyrchu 'lawr yr hewl' oddi wrthynt ar fferm Llwyngwair, fferm sy'n edrych lan ar Fynydd Carn Ingli.

Symudodd y teulu Roberts i Fferm Llwyngwair yng nghanol y 40au ac mae'r un teulu'n parhau i ffermio yno. Erbyn hyn, mae John a Merryl wedi trosglwyddo'r baich trymaf ymlaen i'r genhedlaeth nesaf, a Dylan y mab sydd â'r cyfrifoldeb mwyaf am y fuches o wartheg pedigri Carningli Holstein a Swiss Brown.

Gyda theulu ifanc o wraig a dau o blant i'w cynnal, meddai Dylan, "Rydym yn godro 110 o wartheg ar y funud ac yn hytrach na dyblu neu treblu'r fuches er mwyn gwneud y busnes yn gynaliadwy, penderfynom ni fynd lawr y llwybr o basteureiddio a photelu'r llaeth ar y fferm deuluol gan gynnig gwasanaeth llaeth ffres cyflawn i'r cwsmer, fel yr oedd slawer dydd - heb ei homogeneiddio".

Bydd "Carningli Dairy" yn gweithio gyda siopau a thai bwyta'r ardal a bydd y llaeth yn cael ei ddosbarthu o gwmpas Tydrath, Ffordd y Cilgwyn, Dinas, Nanhyfer, Trewyddel, Felindre, Eglwyswrw, Ffynnongroes a Brynberian. Dywedodd Dylan fod dewis yr enw wedi bod yn hawdd iawn gan fod y llaeth yn dod o'r 'Carningli Holsteins' a bod mynydd Carningli – mynydd yr angylion - i'w weld o bob parc ar y fferm!


Dylai'r bobl sy'n gofidio am yr amgylchedd fod yn hapus iawn gyda'r drefn hon gan mai mewn poteli gwydr y dosberthir y llaeth ac ni fydd cynhwysydd plastig gerllaw iddo.

Roedd Dylan hefyd yn hoffi'r syniad o'r cysylltiad personol y byddent yn ei gael gyda'r cwsmer. Byddai'r llaeth yn cael ei ddosbarthu'n gynnar yn y nos, pan fyddai siawns go dda bod pobl adref o'u gwaith, gan arbed i'r llaeth fod ar stepen y drws drwy'r dydd.

Pob dymuniad da i'r teulu bach yn eu menter newydd.

Ddarllenwyr, os ydych chi am botel o laeth ffres cyflawn - fel yr oedd 'slawer dydd – ar eich stepen drws rhowch ganiad i Dylan ar 07989745189.

# Cylchgronau'r Urdd am ddim i blant Cymru




**Mae Urdd Gobaith Cymru wedi cyhoeddi y bydd eu cylchgronau i gyd yn troi'n ddigidol am ddim i bawb am y flwyddyn ysgol nesaf, 2020-21. Yn ogystal, bydd cylchgrawn poblogaidd Cip o Fedi ymlaen yn cynnwys cylchgrawn Mellten o fewn y tudalennau, eto am ddim!**

Mae'r Urdd wedi bod yn cynhyrchu cylchgronau ers dechrau'r mudiad ac erbyn hyn yn creu tri gwahanol – *Cip* ar gyfer darllenwyr cynradd, *Bore Da* ar gyfer dysgwyr Cymraeg cynradd a *IAW* ar gyfer dysgwyr Cymraeg uwchradd. Maent yn cael eu darllen yn eang a'u defnyddio mewn dosbarthiadau ysgolion led led Cymru.

Meddai Mari Williams, Rheolwr Cyfathrebu'r Urdd: "Rydyn ni yn ofnadwy o falch y byddwn ni yn gallu cynnig ein cylchgronau am ddim i blant ac ysgolion Cymru flwyddyn nesaf a bod y Cyngor Llyfrau a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'r cynllun newydd. Golyga hyn bod gennym y potensial i gyrraedd pob un plentyn yng Nghymru gyda chylchgrawn Cymraeg apelgar a lliwgar, am ddim! Datblygiad cyffrous arall wrth gwrs ydi bod *Mellten* rŵan ar gael o fewn tudalennau *Cip*, fydd yn un ffrwydrad cyffrous i'r darllenwyr!"

Meddai Huw Aaron, sy'n gyfrifol am *Mellten*: "Rwy'n gyffrous iawn bod *Mellten* a *Cip* yn cyfuno, ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Urdd i greu cylchgrawn gorau'r byd! Gobeithio trwy hyn y bydd llawer iawn mwy o blant yn cael cyfle i joio'r cymeriadau a straeon sydd wedi bod yn rhan o *Mellten* dros y pedair mlynedd ddiwethaf - fel Gwil Garw, Bloben, Cadi, Gari Pêl, Boc - a'r lleill!"

Mae'r cyfnod diweddar wedi amlygu'r angen am gynnwys Cymraeg cyfleus a hawdd i'w gyrraedd ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn arbennig dysgwyr sydd o bosib ddim yn ymwneud â'r iaith y tu allan i'r ysgol. Bydd y tri chylchgrawn ynghyd â chynnwys ychwanegol ar y we yn golygu bod gweithgareddau a hwyl, gweithlenni a chomics ar gael yn rhad ac am ddim i bawb.

Bydd angen i bawb sydd am dderbyn y cylchgronau danysgrifio ar urdd.cymru/cylchgronau gyda chyfeiriad e-bost. Bydd y cylchgronau yn cael eu hanfon wedyn yn rhad ac ddim ar e-bost. Yn ogystal, bydd cynnwys ychwanegol ar y wefan ynghyd ag ôl rifynnau. Y gobaith yw y bydd ysgolion yn rhoi'r cylchgronau ar eu safleoedd dosbarth digidol, yn rhannu dolenni gyda rheini a gofalwyr ac yn eu defnyddio yn eang yn y dosbarth. Bydd elfennau ee taflenni lliwio a gweithlenni yn cael eu rhoi ar y wefan hefyd er mwyn gwneud lawrlwytho ar gyfer argraffu yn haws.

Dywedodd Arwel Jones, Pennaeth Adran Grantiau Cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru: "Mae'n braf gwybod y bydd rhai o gymeriadau Mellten yn parhau i gael hwyl rhwng cloriau Cip, ac rydyn ni'n falch iawn o'r bartneriaeth newydd yma rhwng y ddau. Mae llwyddiant y cydweithio eisoes wedi'i amlygu drwy'r sesiynau #CriwCelf ar-lein a gynhaliwyd gan Huw Aaron, yn ystod y cyfnod clo. Ar adeg anodd, bydd cynnig Cip/Mellten a chylchgronau eraill yr Urdd am ddim ac yn ddigidol am gyfnod o flwyddyn o fis Medi 2020 yn adnodd hynod o werthfawr i blant a phobl ifanc ar hyd a lled Cymru."

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am noddi tudalennau Seren a Sbarc, sef y cymeriadau hoffus sy'n annog plant i siarad Cymraeg, yng nghylchgronau Cip a Bore Da.

Meddai llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru: "Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cyhoeddi cartŵn a gweithgareddau Seren a Sbarc yng nghylchgronau'r Urdd er mwyn helpu plant Cymru i gyrraedd targedau'r Siarter Iaith. Rydym yn hapus iawn i gadarnhau byddwn yn parhau i gefnogi cyhoeddi'r cylchgronau yn ddigidol yn ystod 2020-21. Golyga hyn y bydd mwy o blant Cymru, boed o gartrefi Cymraeg neu di-Gymraeg, yn derbyn deunydd darllen Cymraeg am ddim."

Bydd y trefniant newydd yn dechrau ym Medi 2020 gyda'r Urdd yn casglu tanysgrifiadau nawr a thros weddill yr haf.

Bach o Bopeth

Gwaith cyffredinol cynnal a chadw i'w wneud rownd y tŷ neu tu allan

Rhowch alwad i Chris ar
01239 820957
07751 047457

# Her yr Arfordir – saith marathon mewn saith diwrnod

## *Dau ffrind yn codi £3,300 ar gyfer achos da*




***Dyma Guto Harries a Gwyndaf Lewis ar ddechrau eu taith o gwmpas Arfordir Sir Benfro yn codi arian at elusen agos at eu calonnau. Isod ceir hanes y daith redeg gan y ddau yn eu geiriau eu hunain. Diolch!***

### ADRODDIAD GUTO A GWYNDAF

**Yng nghanol mis Gorffennaf, mi wnaethon ni - Gwyndaf Lewis, o Efailwen, a Guto Harries, o Rosebush, redeg 186 milltir llwybr arfordir Sir Benfro mewn wythnos. O Lanrath yn y De i Landudoch yn y Gogledd, mae hyn cyfwerth â rhedeg 7 marathon mewn 7 diwrnod, a digon o ddringo i godi i uchder mynydd Everest!**

Mi roedd hi'n her anferthol, ond hefyd yn brofiad bythgofiadwy, wrth i ni ymdeithio ar hyd ein harfordir godidog. Ry'n ni hefyd yn browd iawn ein bod wedi llwyddo i godi dros £3,300 i elusen iechyd meddwl lleol.

Fe wnaeth yr elusen 'Get the boys a lift (GBTAL)' gael ei sefydlu gan fachgen ifanc o Ysgol y Preseli, ac ers 2016 mae wedi tyfu o nerth i nerth. Erbyn hyn, mae gan yr elusen Hwb yn Hwlffordd lle allwch fynd i gael coffi a chlonc, a chyngor rhad ac am ddim gan gwnselydd proffesiynol am eich cyflwr iechyd meddwl, problemau alcohol a chyffuriau. Mae'r elusen wedi helpu dros 120 o bobol, ac mae e'n destun balchder i ni'n dau ein bod wedi gallu helpu achos mor dda yn ein cymuned leol.

Hoffwn ddiolch i'n teuluoedd a'n ffrindiau am eu holl gefnogaeth ddiflino yn ystod yr wythnos, yn enwedig pan roedd ein coesau ni'n dechrau gwegian. Hefyd, diolch i bawb am eich negeseuon drwy'r wythnos ac am fod mor hael gyda'ch cyfraniadau. O waelod calon, diolch.

A chofiwch, ma' na wastad rhywle i droi, a wastad rhywun yn fodlon gwrando. Cadwch yn saff a chadwch i siarad.

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

### DATHLIADAU MUDIAD MEITHRIN YN 50 OED - APÊL AM LUNIAU A HANESION

**Bydd Mudiad Meithrin yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 flwyddyn nesaf (2021). Felly heb os, mae'r Mudiad yn cynllunio ar gyfer nifer o ddigwyddiadau gwahanol i ddathlu'r achlysur.**

Meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:
"*Mae cyrraedd carreg filltir mor bwysig yn achos dathlu ac yn gyfrwng i gofio, diolch a chydnabod y gwaith a'r ymdrech a fu gan wirfoddolwyr a gan staff dros 5 degawd. Bydd hyn yn ein helpu i barhau i dyfu dros yr hanner canrif nesaf fel y gall mwy o blant Cymru – os nad pob plentyn – elwa ar ofal ac addysg gynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.*"

Bwriedir casglu nifer o luniau diddorol, hanesion a digwyddiadau sydd yn gysylltiedig â'r Mudiad a phrofiadau unigolion dros y blynyddoedd hyd at heddiw, er mwyn ychwanegu at yr amryw o ddathliadau y bwriedir eu cynnal gan y Mudiad.
Os oes gan unrhyw un o'r cyhoedd lun, hanes neu brofiadau yr hoffent eu rhannu, anogir chi i gysylltu gyda'r Mudiad drwy e-bostio marchnata@meithrin.cymru gan nodi'r flwyddyn, enwau'r bobl yn y llun ac ychydig o wybodaeth i gyd-fynd os gwelwch yn dda. Mae'r Mudiad yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd wedi mynychu un o'r Cylchoedd Meithrin cyntaf yn ei hanes yn ogystal - sef y rhai oedd mewn bodolaeth cyn 1971. Eto fe hoffem eich hannog i gysylltu, eto drwy'r e-bost sydd wedi ei nodi uchod.

**GWNEWCH EWYLLYS NAWR!**
Mae ewyllys yn sicrhau bod eich dymuniadau ar gyfer eich anwyliaid yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau eu buddiannau nhw i'r dyfodol a thawelwch meddwl i chi.
Hefyd mae Atwrneiaeth Arhosol (Lasting Power of Attorney) yn sicrhau bod eich buddiannau chi eich hunan yn cael eu hamddiffyn am weddill eich hoes rhag ofn bod afiechyd yn eich rhwystro rhag gwneud penderfyniadau pwysig drosoch chi eich hunan.
**RUSSELL JONES,GWASANAETH YSGRIFENNU EWYLLYS**
Gwasanaeth proffesiynol,cyfeillgar a dwyieithog yn eich cartref eich hunan ar amser o'ch dewis chi.
Dim cleber cyfreithiol cymleth i'ch drysu na chostau cudd. *Mae'n symlach na beth chi'n ei feddwl felly peidiwch ag oedi! Galwch Russell i drefnu apwyntment.*
**Ffôn symudol: 07968 156250**
***E-bost: 1rujones@gmail.com***

menter iaith
Sir Benfro
Abergwaun - 01348 873700
Crymych - 01239 831129

**DATGANIAD**

***Oherwydd COVID-19 mae swyddfeydd y Fenter yng Nghrymych ac Abergwaun bellach ar gau ac mi fyddant yn aros felly nes bod cadarnhad yn dod ein bod yn iawn i ddychwelyd. Mae'r staff i gyd yn gweithio o adref dros y cyfnod hwn a'r ffordd orau i gysylltu â ni ar hyn o bryd yw drwy'r ebost. Byddwn yn gwneud ein gorau i gadw gymaint o bethau sy'n bosib i fynd drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol. (Gweler isod). Mae'n gyfnod gwahanol iawn i bawb ond byddwn yn parhau i weithredu mor effeithiol â phosib yn ystod y cyfnod hwn. Gobeithio bydd pawb yn cadw'n ddiogel ac yn iach.***

***Diolch a dymuniadau gorau i bawb,***
***Tîm Menter Iaith Sir Benfro***

## NEWYDDION MISB

Er gwaetha'r sefyllfa Coronafeirws mae staff Menter Iaith Sir Benfro'n dal i weithio gan newid ein harferion arferol i weithio ar-lein. Gyda'n tudalennau facebook arferol ac un newydd, Cica Corona (hon ar y cyd â 'Cered', Menter Iaith Ceredigion), mae gennym weithgareddau a phethau o ddiddordeb i bobl o bob oed. Ewch i'r dudalen ar gyfer cwis wythnosol, cystadleuaeth limrig (fedrwch chi guro Carwyn John tybed?!), ryseitiau, hen luniau, gweithgareddau i blant a llawer mwy. I'r rhai nad ydynt yn dilyn facebook mae'n cylchlythyr Pethe Penfro yn dal i fynd ma's ar ebost a hynny ar newydd wedd i gynnwys llawer o'r pethau sy'n ymddangos ar dudalen Cica Corona- anfonwch ebost at margaret@mentersirbenfro.com i dderbyn y cylchlythyr os nad ydych ar ein rhestr bostio'n barod.. Mae gweithgareddau i blant ac i ddysgwyr, megis Clonc a Choffi yn cael eu cynnal trwy defnyddio llwyfannau ar-lein fel Zoom gyda nifer dda'n mwynhau cadw mewn cyswllt a gwneud ffirndiau newydd hyd yn oed drwy'r cyfrwng yma.

Canolfan
Gelf
Gorllewin
Cymru
16 Y WESH
ABERGWAUN
SIR BENFRO
SA65 9AE
Ffôn a ffacs :
01348 873867
westwalesartscentre.com

# MENTER IAITH AR WAITH

Er na fedrwn ni gwrdd wyneb yn wyneb ar hyn o bryd dyma rai o uchafbwyntiau'n gweithgareddau diweddar.

CYSTADLEUAETH BWGAN BRAIN.

Cystadleuaeth i Gymru gyfan oedd hon sef creu Bwgan Brain ar thema Cymreig. Mentrau Iaith Cymru oedd y trefnwyr gydag enillydd o ardal bob Menter yn mynd ymlaen i gystadlu yn erbyn yr ardaloedd eraill. Anfonodd 13 o gystadleuwyr lun o'u bwganod brain atom ni a'r tri a ddaeth i'r brig oedd.

1af: Betsi Payne
2il: Helen & Evelyn Thomas
3ydd: Sebastian Tree

Diolch yn fawr iddyn nhw ac yn arbennig i Mari Grug James am feirniadu.

Aeth Betsi ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynol ac ennill y 3ydd wobr dros Gymru Gyfan gydag Ifan Jones Evans yn beirniadu. Llongyfarchiadau MOWR i Betsi! Gwelir ei Bwgan Brain yn y llun i'r dde.

CYSTADLEUAETH CESTYLL TYWOD A CHYSTADLEUAETH CREU FFAU

Cystadleuaeth Cica Corona i greu castell tywod- naill un go iawn neu fodel. Model aeth â'r wobr- llongyfarchiadau i Sebastian, naw oed, o Eglwyswrw am ei waith creadigol!

Ac yn y gystadleuaeth i greu ffau *(den)* pâr o Sir Benfro aeth â'r wobr gyntaf hefyd, sef Evelyn (3 oed) ac Olivia (5 mis) -roedd y ddwy wedi bod yn brysur yn defnyddio lliwiau'r enfys i beintio olion eu troed a'u dwylo i greu ffau arbennig. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw hefyd!


TAFARN Y CLO

Tamaid o hwyl am gyfnod dros yr haf oedd hyn. Bob nos Fercher aeth Mentrau Iaith ar draws Cymru ati yn eu tro i gynnal noson o adloniant ar thema noson ma's mewn tafarn. Tro MISB a Cered iau didoedd hi ar yr 22ain o Orffennaf a chawsom noson hwyliog gyda chwis gwybodaeth gyffredinol, cwis lluniau 'emoji', cystadleuaeth creu brawddeg a chreu limrig, ffeithiau diddorol a thafodiaith o'r ddwy sir, clip ffilm creu coctels, cerddoriaeth gan Bwca a llawer mwy. Diolch i bawb ymunodd â ni.

DAN Y WENALLT

Daeth cyfle arall i 'Theatr Soffa' berfformio darlleniad o Dan y Wenallt (sef trosiad y prifardd T.James Jones – Jim Parc Nest- i'r Gymraeg o 'Under Milk Wood' Dylan Thomas) ar ddechrau mis Awst. Gweithgaredd ar y cyd rhwng MISB, Cered a Chelfyddydau Span yn Arberth oedd hyn dan arweiniad Dr Rowan O'Neill.

Yn berfformiad cymunedol, roedd llawer iawn o'r rhai oedd yn cymryd rhan yn dod o Geredigion – sef yr ardal fyddai wedi cynnal Eisteddfod Tregaron, ac yr oedd hyn felly yn rhan o'r Eisteddfod AmGen. Cafwyd ymateb da – diolch i bawb wnaeth ein cefnogi drwy wylio!





**Enillydd cystadleuaeth castell tywod Y Fenter Iaith**

# TAITH HEN GEIR TREFIN

Yn dilyn llwyddiant ysgubol Sioe Hen Geir Trefin yn 2019, penderfynodd Pwyllgor *Gwelliant Trefin* drefnu digwyddiad o'r fath yn flynyddol. Eleni, o achos Cofid19, penderfynwyd trefnu taith hen geir yn hytrach na chynnal sioe yn y pentref.

Roedd dydd Sadwrn 12fed Medi yn ddiwrnod braf, a chyda'r haul yn tywynnu, ac mewn grwpiau bach o 5-7 car, gadawodd dros 30 o geir a 10 hen feic Wdig ar daith o 20 milltir, i Drefin. Ar ôl dringo rhiw serth Wdig i'r ucheldir, aeth y ceir ar eu hynt drwy hewlydd gwledig yr ardal gan alw mewn pentrefi fel Trefaser a Thremarchog. Yn ffodus, 'roedd yr hewlydd cul yn dawel a heb rwystrau, a chyrhaeddodd pob car Melin Tregwynt yn ddiogel. 'Roedd yn hyfryd gweld y bobl leol yn ein cyfarch wrth deithio drwy'r pentrefi, a chafwyd croeso cynnes gan staff Melin Tregwynt.






Yn dilyn coffi cloi, aeth y ceir yn eu blaen, gan alw ym Mathri, Abercastell, Trefin, Croesgoch a Llanrhian. Yn anffodus, gan fod Porthgain mor brysur, penderfynwyd peidio ag ymweld â'r porthladd bach hudolus, a chyfeiriwyd y ceir ymlaen at bentref Trefin.

'Roedd y trefnydd, Huw Landeg Morris, yn falch bod y trigolion lleol wedi cael cyfle i fwynhau gweld ystod eang o hen geir a beiciau gan gynnwys: Austin 7, Morris Minors, MGs, Triumphs, Jaguars, Panther, Morgan a hen feiciau megis Triumph a BSA.

Yn ogystal â chyfeillion lleol, denwyd perchnogion hen geir o ardaloedd pellach, megis Llanymddyfri, Abertawe a Hendy Gwyn ar Daf. Teg dweud mai'r un oedd sylw pawb, sef rhyfeddu ar brydferthwch yr ardal a'r golygfeydd bendigedig o'r arfordir.

Nid yn unig y gyrwyr oedd wedi mwynhau'r dydd, ond cafodd nifer o drigolion lleol pleser mawr o weld yr hen geir yn ymweld â'u pentrefi. Eisteddodd un o drigolion adnabyddus Trefin, Don Evans, ar fainc y pentref drwy'r prynhawn yn dwyn atgofion a gwerthfawrogi'r hen geir.

Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y dydd, am eu cefnogaeth.

PRITCHARD
a'i Gwmni
CYFRIFWYR SIARTREDIG ARDYSTIEDIG

Mae gennym bartneriaid a staff sy'n medru cynnig gwasanaeth
Cymraeg cyflawn yn y meysydd canlynol:
*Hunan Asesiad
* Paratoi cyfrifon busnesau a'u cyflwyno i Gyllid y Wlad
* Ffurflenni Treth Incwm unigolion
*Treth Ar Werth a Thalu wrth ennill
*Cyngor ar bob agwedd o drethiant

74 Stryd Fawr, Abergwaun
47 Stryd y Santes Fair, Aberteifi
(01348) 873263 / 874473
(01239) 612475 / 612583

Gwasanaethau Gwaun
**Gwaith cynnal a chadw ar adeiladau o gwmpas y tŷ.**

**(Perchennog: Andrew Davis, Ffermdy Pontfaen, Cwm Gwaun)**

***Am eich holl waith cynnal a chadw, torri porfa, strimio, torri cloddiau a choed, glanhau ffenestri, peintio ac addurno y tu fewn a thu allan,***

***ffoniwch* 01348 881361**


# CARNIFAL RHITHWIR CWM GWAUN

Fel nifer o ddigwyddiadau eraill ar draws y wlad, edrychai'n debyg y byddai'n rhaid anghofio am y 67ain Carnifal a Mabolgampau Cwm Gwaun am eleni oherwydd y cyfyngiadau Covid-19. Fodd bynnag, nid yw pobl y Cwm yn rhai sy'n rhoi mewn yn hawdd iawn ac yn dilyn pôl ar dudalennau Facebook, penderfynwyd bwrw ymlaen gyda'r trefniadau am garnifal a fyddai ychydig bach yn wahanol. Drwy gyfrwng cyfarfod ar Zoom, aeth pwyllgor y carnifal, o dan arweiniad yr ysgrifennydd Ruth Evans, ymlaen i drefnu Carnifal Rhithwir i'w gynnal drwy dudalen facebook 'Carnifal a Mabolgampau Cwm Gwaun' gan ychwanegu ychydig o gystadlaethau hwyliog eraill i'r gymysgedd.
Ddydd Llun, 24 Awst, wythnos cyn dyddiad arferol y carnifal ar Ddydd Llun Gŵyl y Banc, agorodd y ceisiadau ar gyfer saith dosbarth gwisg ffansi a phedair cystadleuaeth hwyliog. Y beirniaid eleni oedd Carys O'Donovan ar gyfer y carnifal, Shân Griffiths am yr her gwaith cartref, Gethin Davies am yr her chwaraeon, Rhiannon Ditri a Geoff Lewis o Filfeddygon Gwaun i'r anifeiliaid anwes dawnus, a'r gystadleuaeth "Oes Gen Ti Dalent" yn cael ei beirniadu gan y Welsh Whisperer. Dechreuodd y cystadlu'n gynnar yn y bore gan barhau tan yr amser cau o hanner nos, a gwelwyd dros 80 o geisiadau'n cael eu postio ar y dudalen Facebook.
Pan ddaeth diwrnod arferol y carnifal ar 31ain Awst, rhyddhawyd y canlyniadau fel a ganlyn:
**Carnifal** - Y wisg orau i fechgyn o dan 5: 1, Jac Williams (Ironman 2020); 2, Beau Parry (Syniadau Twp Donald Trump); 3, Ianto Grim (Dominic Cummings yng Nghastell Barnard). Y wisg orau i ferched 6 - 10 oed: 1, Elsa Parry (Ffabrig Drutaf 2020 - Cushelle); 2, Miriam Grim (Diolch Gweithwyr Allweddol); 3, Hanna Evans (Bod yn Rhiant yn 2020). Y wisg orau i fechgyn 6 - 10 oed: 1, Cecil Lewis (Beth dwi'n mynd i wneud â'r holl bapur tŷ bach ma?). Y wisg orau i blant 10 -16 oed: 1, Gwyneth Lewis (Popeth o'r gegin yn ystod y cyfnod clo); 2, Yori Evans (Dihuna fi lan yn 2021); 3, Angharad Williams (Corona-Stone). Y cymeriad gorau dros 16 oed: 1, Ruth Evans (Cyfoeth 2020); 2, Rebecca Parry (Lockdown 2020 yn Folly Farm). Y pâr gorau: 1, Mary Morgan a Muriel Morris (Siop Trin Gwallt Ar Gau: Corona cut); 2, Mia ac Elsa Parry (Jac Exotic a Carole Basken); 3, Miriam ac Ianto Grim (Harry, Meghan ac Archie off i LA).
**Gwaith Cartref** - Ni dderbyniwyd un ymgais yn adran yr Oedolion, un ymgais haeddiannol iawn yn yr Adran Uwchradd, ond derbyniwyd saith ymgais yn yr adran gynradd - i gyd yn cynnig rhywbeth gwahanol a'r saith ar ffurf fideo yn amrywio o ganeuon clyfar i flogiau a fideos, a'r cyfan, yn ôl y beirniad yn llawn hiwmor a ffeithiau diddorol am fywyd plant yn y cyfnod clo. Dyma'r canlyniadau: Uwchradd - 1, Efa Lewis; Cynradd -1af, Miriam Grim; 2il, Celt Edwards; 3ydd, Iestyn Colnet.
**Anifail anwes arbennig** – Oedolion: 1, Lucy Williams a Profit y llo. Ysgol Uwchradd: 1, Aled Lloyd a Pip y ci Cymraeg; 2, Efa Lewis a Jess y ci defaid; 3, Mary Reed-Moane a Minnie'r gath. Ysgol Gynradd: 1, Gwyneth Lewis a Begw'r iâr; 2, Hanna Evans a Benji'r ci; 3, Catrin Williams a Freckles y ddafad.
**Her chwaraeon** – Taflu pêl i mewn i dwll oedd yr her ond roedd y gwobrau'n mynd i'r ymgeiswyr a ddefnyddiodd eu dychymyg a'u creadigrwydd orau. Oed Cynradd - 1af, Angharad Williams; 2il, Teulu Gwaun Garage; 3ydd, Lili Williams. Oed Uwchradd - 1af Bedwyr Thomas. Oedolion - 1af Martin Edwards.
**Oes gen ti dalent?** - Oed Cynradd: 1, Erin Colnet a'i dawns tiktok ar gefn y poni; 2, Jac Williams a'r torrwr porfa; 3, Delor Thomas a'i phyped. Oed Uwchradd: 1, Bedwyr Thomas yn rhedeg yn gynt na'r ceffyl. Oedolion: 1, Brian Morgan a'i 'hand-brake turns'; 2, Caryl Edwards a'i doniau pêl rygbi; 3, Dawns Rebecca Parry a Ruth Evans.
Dywedodd pob un o'r beirniaid iddynt gael mwynhad arbennig o feirniadu ac mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r chwech am iddynt ufuddhau mor ddiffwdan i'r cais. Diolchir hefyd i'r ysgrifennydd Ruth Evans am gario'r baich trymaf yn yr holl drefniadau a bwydo'r holl wybodaeth i'r dudalen facebook. Meddai Ruth, "Diolch yn fawr i'r holl gystadleuwyr am gadw'r carnifal i fynd drwy gyfnod anodd iawn i bawb. Rydym ni'n siŵr bod y lluniau a'r fideos carnifal rhithwir ar Facebook wedi codi calon llawer o bobl".










***Danfonwch newyddion i'r Llien Gwyn***
**lliengwyn@ papurbro.org**

# Colofn y Llythyrau

## DIWEDD CYFNOD YNG NGHWMNI MR URDD.

Mae'n bosib eich bod yn gwbod eisoes bod fy nghyfnod gyda'r Urdd wedi dod i ben erbyn hyn, yn sgil derbyn diswyddiad gwirfoddol ar ddiwedd mis Gorffennaf. Mae gennyf deimlade cymysg ynglŷn ag hyn, wrth reswm, gan nad dyma'r ffordd roeddwn wedi dymuno gorffen fy ngyrfa gyda'r mudiad annwyl ac arbennig yma.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i estyn fy niolch diffuant i chi gyd, yn arweinyddion ( a cyn arweinyddion ) o Adrane ac Aelwydydd ac hefyd athrawon ( a cyn athrawon ) ysgolion am eich gwaith gwirfoddol, eich cyfeillgarwch a'ch cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Diolch hefyd am eich cydweithrediad parod ac am bob cymwynas wnaethoch yn enw'r Urdd, ac i mi'n bersonol, wrth inni hybu Cymreictod ymhlith ein haelodau. Mae wedi bod yn fraint ac yn bleser gweithio yn eich plith, ar ran yr Urdd, dros y 29 mlynedd dwetha. Fe wnaf drysori'r atgofion am yr holl weithgaredde'n fowr iawn - y cystadlaethe chwaraeon, Eisteddfode, mynychu Gwersylloedd Llangrannog, Glan-Llyn, Pentre Ifan a Caerdydd, gweithgaredde clybie'r Urdd ar ol ysgol, yr Adrane, yr Aelwydydd a'r Fforwm Ieuenctid, gweithgaredde dyngarol, y teithie undydd a tramor yn ogystal a'r teithie cyfnewid i Gatalonia. Roedd bod ynghanol afiaith, asbri, brwdfrydedd a bwrlwm ein haelode wastod yn bleser pur, y wefr hyn oedd yn fy nghadw i deimlo'n ifanc fy ysbryd - hyd yn oed os wedd y gwallt wedi gwynu ers blwyddyn neu ddwy bellach!

Diolch o galon am y llu negeseuon ebost ,tecst, cardiau ac anrhegion rwyf wedi eu derbyn, gwerthfawrogaf y cyfan yn fowr iawn. Dya englyn o waith Eifion Daniels wnes i dderbyn wrth Bwyllgor Cylch y Frenni :-

I gyfarch Dewi Eurfyl Lewis
A'i dalent, ysbrydoli - yn y Sir
A'i siar o ddireidi,
Am dy waith a'th fwrlwm di,
Diolch am bopeth Dewi!

Mae'n gyfnod anodd ac ansicir ar yr Urdd ar hyn o bryd ond hyderaf daw eto haul ar fryn - dymuniade gore i Sian Lewis a holl staff yr Urdd i'r dyfodol.

yn gywir, Eurfyl Lewis






CYMDEITHAS YR HOELION WYTH YN CEFNOGI YSGOL Y CWM TREVELIN.

Yn y llun gwelir Eurfyl Lewis, Cadeirydd Cymdeithas yr Hoelion Wyth yn cyflwyno siec arall am £5000 i Ysgol y Cwm Trevelin drwy law y Parchedig Isaias Grandis a'i fab Llewelyn. Mae'r Hoelion Wyth wedi cyfrannu'r swm anrhydeddus o dros £20,000 i Ysgol y Cwm dros y bedair mlynedd dwetha a diolchodd Isaias yn ddiffuant i'r Gymdeithas am ei cefnogaeth aruthrol. Bydd yr ymgyrch yn gorffen yn fuan ond mae un cyfle arall gennych i gefnogi - cysylltwch gyda Eurfyl ar 07980 883924 neu anfonwch neges ar dudalen facebook Cymdeithas yr Hoelion Wyth os hoffech archebu bocs o win Malbec P15 neu Chardonnay. Diolch o galon i bawb sydd wedi cefnogi'r ymgyrch, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

ARGRAFFWYR
E.L.JONES
PRINTERS

*Sefydlwyd 1947*
(01239) 612251
ymholiadau@eljones.org.uk

# EISTEDDFOD GADEIRIOL TYDDEWI 2021

## COVID 19

**Gorfodwyd ni i gyd gan argyfwng presennol y coronafeirws i gadw ar wahân i'n gilydd. Dyma pam nad oedd modd i bwyllgor yr Eisteddfod gyfarfod fel arfer i drafod rhaglen cystadlaethau'r Eisteddfod nesaf.**

Gan nad oedd modd cynnal cyfarfod o bwyllgor yr Eisteddfod, cyflwynwyd nifer o syniadau diddorol a da gan aelodau unigol o'r Pwyllgor ar gyfer Rhaglen Eisteddfod 2021. Teimlai'r ddau Gydlynydd fodd bynnag mai gwell fyddai cyflwyno'r syniadau hyn i'w trafod yn y pwyllgor a fyddai'n cyfarfod i drefnu ar gyfer Rhaglen Eisteddfod 2022. Penderfynwyd y dylid cadw'r rhaglen ar gyfer Eisteddfod 2021 cyn agosed a oedd modd at raglen 2020. Lle bu'n rhaid newid, gwnaed hynny wedi trafod gyda'r beirniad cymwys.

Felly, cyflwyna'r ddau Gydlynydd Raglen Eisteddfod 2021 ar adeg cynharach yn y flwyddyn na'r arfer. Gan ei bod yn ofynnol i bob un ohonom i aros yn ein cartrefi, teimlem y byddai'r rhaglen yn caniatáu inni i gyd dreulio peth o'n hamser mewn dulliau creadigol. Gwyliau yw'r thema. Mwynhewch!

### *Eisteddfod Gadeiriol Tyddewi 2021*

**Thema: Gwyliau**
**Neuadd y Ddinas, Tyddewi**
**Dydd Gwener**
**Chwefror 26, 2021**
**Agorir yr Arddangosfa Gelf, Crefft a Choginio**
**am 9:30 y bore.**
**Y Cystadlu Llwyfan i gychwyn am 10.30 y bore**

---

**Arweinydd Cyngh. Huw George**
**Cyfeilyddion Mr Julian Harries *a* Mrs Margaret Evans**
**Yng nghwmni côr: *Friends in Harmony***
**Arweinydd Mrs Jane E. James**

---

**Cydlynwyr Mrs Glenys James**
**Parchg Wiliam Owen**
**15, Maes yr Hedydd, Tyddewi SA62 6QW**
Ffôn: **(01437) 720447** Ebost: **jjames445@btinternet.com**
**Bydd lluniaeth ysgafn ar werth.**
**Ceir mynediad anabl cyflawn i Neuadd y Ddinas.**



# TEYRNGED MERCHED Y WAWR HWLFFORDD I: May Jenkins, Hwlffordd 1935 -2019



**Bu farw May Jenkins ychydig ddyddiau cyn y Nadolig 2019. Mae gennym oll yng Nghangen Hwlffordd o Ferched Y Wawr atgofion annwyl a hyfryd iawn ohoni. Bu May yn weithgar dros ben yn y gangen a'r mudiad a phopeth Cymraeg a Chymreig yn yr ardal am flynyddoedd lawer. Sefydlwyd y gangen yn 1971, ac roedd hi yn un o aelodau cyntaf yno. Gweithiodd yn ddyfal i'w chynnal. Dywedwyd amdani "Fe fuasai Merched y Wawr wedi darfod yn Hwlffordd oni bai am May Jenkins".**

Pwy a ddychmygai, wrth glywed tafodiaith fyrlymus Sir Benfro May, mai Sais o Lundain oedd ei thad? Daeth yn 'faciwî' i Lanycefn adeg y Rhyfel Mawr, a phenderfynodd aros yma wedi'r rhyfel yn hytrach na dychwelyd i Lundain. Priododd un o ferched y fro, a magu'r teulu yn Gymry yn ardal Mynachlog-ddu. Wedi'r ail ryfel, symudodd y teulu i'r Tymbl, lle bu tad May yn löwr . Ar ôl gadael yr ysgol, bu May yn gweithio yn ffreutur y meddygon yn Ysbyty Treforys.

Priododd â Tom Jenkins yn 1960 yng Nghapel Glandŵr, Hermon. Cwrdd yn yr ysgol gynradd oedd eu hanes. Cafwyd y wledd briodas yn festri'r capel – felly 'roedd pethau'r adeg honno. Symudodd y ddau i Hwlffordd, lle'r oedd Tom yn gweithio i'r 'Dreth Incwm' yn swyddfa Hwlffordd, a chafodd aros yno gydol ei yrfa. Magwyd dwy ferch ar yr aelwyd. Bu Tom a May yn gefn i gymdeithasau Cymraeg Hwlffordd : y Cymrodorion, y Cylch Cinio, Merched y Wawr a Chlwb Cinio Allt yr Afon. Roeddent eu dau yn ddiaconiaid yng Nghapel y Tabernacl, a buont yn cefnogi'r gwasanaeth Cymraeg a gynhelir bob mis yno.

Wedi magu'r teulu, dychwelodd May i fyd gwaith, gan ddod yn gynorthwyydd yn Ysgol Roch (Y Garn) ger Hwlffordd, a symud wedyn i Ysgol Portfield, ysgol yn Hwlffordd i blant ag anghenion arbennig. Roedd ganddi amynedd a synnwyr cyffredin yn ogystal ag anwyldeb, ac elwodd sawl un o'i gofal.

Ni phallodd ei gweithgarwch na'i hiwmor wedi iddi ymddeol. Roedd hi'n ei chael yn ddoniol iddi gael yr enw 'May' er mai ym mis Ionawr oedd ei phen-blwydd! Helpai sawl un yn dawel ac yn ddirwgnach. Âi yn y car i Grymych i gasglu'r Wawr pan oedd hithau yn ei hwythdegau. Agorai ddrws ei chartref i gyfarfodydd y gangen pan na fedrem gael neuadd. Ymwelai â phobl yn yr ysbyty, ac roedd yn barod iawn ei chymwynas wrth hebrwng ffrindiau yn ei char pan fedrai.

Pan ddaeth cyfle yn 2007 i wobrwyo aelod o Ranbarth Penfro am ei gweithgarwch yn ei chymuned a'r gangen, roeddem oll wrth ein bodd wrth i May dderbyn y wobr. Roedd ei gwên y diwrnod hwnnw bron cymaint â'r tusw anferth!

Gyda gwên y byddwn yn ei chofio. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w merched, Delyth a Carys, ei hwyrion, Rhys, Lowri a Rhodri a'r teulu i gyd. Parhawn â'r gwaith, gan mai dyna'r deyrnged orau iddi.


**Tecwyn James**

**SIOP SIAFINS**

***Celfi, Gwaith Turnio a Gwaith Coed***

Pentrisillt, Pontfaen, Abergwaun

& **01239 820405**

# YDYCH CHI'N GYMWYS I GAEL BRECHLYN FFLIW AM DDIM Y GAEAF HWN?

Mae amddiffyn eich iechyd ac iechyd y rhai o'ch cwmpas yn bwysicach nag erioed ac mae cael eich brechlyn ffliw yn rhan allweddol o hyn.

Mae meddygon teulu, fferyllwyr a staff y GIG ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro wedi gweithio'n galed i baratoi ar gyfer rhaglen brechu rhag y ffliw eleni; i sicrhau ei fod yn ddiogel pan fyddwch chi'n derbyn eich brechlyn ffliw a'i fod ar gael i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o gael cymhlethdodau o'r ffliw mor gynnar â phosibl.

Helpwch ni i gadw Cymru yn ddiogel trwy gael eich brechlyn ffliw os ydych chi'n gymwys.

Gallwch gael brechlyn ffliw'r GIG am ddim os:

- yn blentyn dwy neu dair oed (31 Awst 2020)
- yn blentyn yn yr ysgol gynradd
- yn feichiog
- yn 65 oed neu'n hŷn
- dros 6 mis oed â chyflwr iechyd tymor hir
- ag anabledd dysgu
- bod gennych BMI o 40 neu'n uwch
- yn weithiwr gofal iechyd rheng flaen
- gweithio mewn cartref gofal gyda chyswllt cleient rheolaidd
- darparu gofal cartref yng nghartrefi cleientiaid
- yn ofalwr taledig neu ddi-dâl

Bydd eich meddyg teulu yn eich gwahodd i dderbyn eich brechlyn ffliw os ydych chi'n gymwys ac felly mae'n bwysig sicrhau bod y manylion cyswllt sydd gan eich meddyg teulu ar eich cyfer yn gyfredol.

Mae plant yn yr ysgol gynradd fel arfer yn derbyn eu brechiad ffliw gan Dîm Nyrsio Ysgol Hywel Dda. Bydd gwybodaeth bellach am raglen brechu ysgolion eleni yn cael ei rhannu cyn gynted â phosibl.

Dywedodd Ros Jervis, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Mae brechu ffliw eleni yn bwysicach nag erioed os ydym am amddiffyn ein hiechyd ac iechyd y rhai o'n cwmpas y gaeaf hwn.

"Mae diogelwch y rhai sy'n derbyn ac yn rhoi y brechiadau eleni o'r pwys mwyaf, ac rwy'n hynod falch o'r paratoadau a wnaed gan gynifer o staff iechyd ledled canolbarth a gorllewin Cymru i sicrhau bod yr holl fesurau diogelwch priodol ar waith.

"Y bobl sydd â risg uchel o COVID-19 hefyd yw'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o'r firws ffliw. Os cewch eich gwahodd i dderbyn eich brechiad ffliw, gwnewch bob ymdrech i ddod i'ch apwyntiad a'n helpu ni i'ch cadw chi a Chymru yn ddiogel y gaeaf hwn.

"Os nad ydych yn gymwys i gael brechiad ffliw rhad ac am ddim y GIG, gallwch barhau i amddiffyn eich hun gyda brechlyn ffliw preifat gan eich fferyllydd lleol am ffi fach. Gallwch ddod o hyd i'ch fferyllfa agosaf yma https://biphdd.gig.cymru/gofal-iechyd/gwasanaethau-a-thimau/fferyllfa-gymunedol/

# GRANT YN CEISIO HYBU ADFER FFINIAU CAEAU

Mae cynllun grant peilot wedi cael ei lansio i gefnogi adfer ffiniau caeau traddodiadol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'r grant, sy'n rhan o gynllun Awdurdod Parc Cenedlaethol a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn arolwg o ffiniau traddodiadol a gwblhawyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020.

Gellir anfon ceisiadau am gefnogaeth gyda phob agwedd o adfer ffiniau traddodiadol, yn cynnwys atgyweirio cloddiau pridd a chloddiau cerrig, adfer waliau sychion, plygu perthi a bondocio, creu gwrychoedd newydd a chau bylchau mewn gwrychoedd sy'n bodoli.

Dywedodd Sarah Mellor, Swyddog Bioamrywiaeth Awdurdod y Parc a datblygwr y cynllun: "Tynnodd yr arolwg sylw at amrywiaeth ragorol y ffiniau traddodiadol sy'n gwneud cyfraniad anferth i'r dirwedd a'r bywyd gwyllt fel ei gilydd yn ein Parc Cenedlaethol.

"Mae pwysigrwydd ffiniau traddodiadol o fewn y system ffermio wedi gostwng, ynghyd ag argaeledd llafur fferm sydd ei angen i'w cynnal. Mae'n amser iddyn nhw gael y sylw y maen nhw'n eu haeddu.

"Mae'r gronfa grant yn gyfyngedig a chan y bu oedi gyda lansio'r cynllun oherwydd Covid-19, byddwn yn gweithredu ar sail y cyntaf i'r felin ar gyfer gweithiau a gynlluniwyd y gaeaf hwn.

"Os digwydd i'r cynllun gael ei ordanysgrifio, gallwn ni ystyried y canlynol wrth flaenoriaethu ceisiadau: gwerth bywyd gwyllt, agosrwydd at hawliau tramwy cyhoeddus neu weledeedd o hawliau tramwy cyhoeddus, cyfraniad at y dirwedd a gwerth hanesyddol."

Bydd ceisiadau yn cael eu cyfyngu i un ffin i bob ymgeisydd. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw dydd Llun, 5ed Hydref 2020. Er mwyn gweld y manylion llawn a llawrlwytho'r ffurflen gais, ewch i https://www.arfordirpenfro.cymru/cadwraeth/cynllun-peilot-ffiniau-traddodiadol-2020-2021/

Os ydych chi angen unrhyw gymorth neu wybodaeth bellach, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda ar 01646 624800 neu drwy anfon e-bost at devplans@pembrokeshirecoast.org.uk.



**Priodas Aur Morys a Margaret**

**Cyfeilyddes o Fri**
**Ein Marged fach ni!**
**A Morys y gŵr**
**Yn graig ac yn dŵr.**
**Rhaid dathlu yn awr**
**Pen-blwydd priodas mor fawr**
**Creu harmoni pur,**
**Uniad perffaith yn wir!**

**Llongyfarchiadau!**

# BRENHINES Y BAGIAU BACH



**Pwy sy'n cofio'r teimlad rhyfedd o sefyll ar lwyfan yr eisteddfod? Y llwnc yn sych, y pengliniau'n crynu a'r meddwl yn rasio i gofio'r holl eiriau. Y perfformiad yn plesio'r beirniad weithiau, a gwobr yn dilyn.**

Mewn steddfod ysgol, neu steddfod bach y wlad, we gweld ford y beirniad wedi'i wisgo â bagiau lliwgar wedi eu pwytho â llaw yn rhyfeddod. Y 'prize bags' we rhain, â'r traddodiad o gyflwyno gwobr mewn cwdyn bach yn mynd yn ôl yn bell. Yng Ngheredigion a Shir Benfro, we'r traddodiad yn fwy cadarn nag yng ngweddill Cymru, yn ôl y sôn.

Sawl steddfod sy'n cyflwyno bagiau erbyn hyn? Bach iawn, glei? Wel, oherwydd bysedd dyfal un gwirfoddolwraig o Groesgoch, mae'r traddodiad yn fyw o hyd yn yr ardal. Mae Margaret Hughes wedi ymddiddori mewn gwaith nodwydd ers yn ferch ifanc ar Ynys Manaw, lle y cafodd ei magu. Treuliodd ei bywyd yn pwytho gan ddysgu sgiliau gwnïo a gweu gan ei mam. Cafodd degan peiriant gwnïo un Nadolig pan yn blentyn, ond bu'n rhaid iddi aros tan ei phenblwydd yn un ar hugain i gael peiriant go iawn.

Priododd â chrwt o blwyf Mathri, sef Gwynfor, ac wrth fagu eu mab, David, bu'r peiriant gwnïo yn cael gwres 'i drâd! Mae David yn cofio am y traddodiad o ennill bagiau yn steddod Ysgol Croesgoch pan wedd e'n ddisgybl yn y 1980au. Bu bwlch wedyn am rhai blynyddoedd, tan i Mrs Jayne Evans, y brifathrawes yn y 1990au, ofyn i Margaret am help i atgyfodi'r traddodiad. Yn ystod cyfnod 'cau mewn Covid' yn y misoedd diwetha, pwythodd Margaret 250 o fagiau, a phob un yn wahanol i'r nesa. Tipyn o gamp a llafur cariad.


Yn y gorffennol, bu Margaret hefyd yn dysgu disgyblion Blwyddyn 6 i wneud brodwaith pob Nadolig. Wedi'r profiad hyn, bu sawl un yn datblygu eu sgiliau wrth fynd yn hŷn, gan gofio dechrau gyda 'Mrs Hughes' yn yr ysgol fach.

Wrth briodi â Gwynfor, daeth Margaret yn un o deulu lluosog ac adnabyddus yn yr ardal. (Bydd rhai ohonoch yn cofio amdano yn canu gyda 'Bois y Felin' yn y 1960-80.) Dyma reswm arall i Margaret



arfer ei sgiliau nodwydd. Pwythodd sampler adeg geni holl fabanod y teulu..... nifer fowr iawn o bwythe bach i nifer fowr o fabis! Â hyn i gyd mewn golwg, syndod meddwl fod gan Margaret yr amynedd i godi nodwydd am unrhyw reswm arall. Ac eto, pwytho map Ynys Manaw y mae ar hyn o bryd, yn dangos pentrefi ei phlentyndod ac Olwyn Fawr Laxey. Bydd hwn yn cael ei anfon i Ganada yn anrheg i'w brawd sy'n byw yno.

Wel, da iawn Margaret!




# S4C TRO PEDOL

**Dyddiad pwysig yw 17eg mis Medi 1980 - roedd hyn pan gadarnhaodd William Whitelaw, Ysgrifennydd Cartref San Steffan, y sefydlid sianel deledu Gymraeg i bobl Cymru. Tro pedol annifyr oedd hyn ar ran llywodraeth Thatcher.**

Bu aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn flaenllaw gan ymgyrchu yn ddiflino am deledu Cymraeg. Gwnaethon nhw ymwthio'r stiwdios a swyddfeydd teledu Saesneg, a dringo mastiau darlledu teledu, hyd yn oed. Cafodd llawer o ddynion a gwragedd ifainc dewrion eu carcharu o ganlyniad eu gwrthdystiadau di-drais.

Yn yr etholiad cyffredinol ym mis Mai 1979 wynebai Prif Weinidog James Callaghan arweinydd y Blaid Geidwadol Margaret Thatcher. Bu'r ddwy blaid yn addo inni sianel deledu Gymraeg.

Ta waeth, ar ôl dod i rym, torrodd y llywodraeth Thatcher ei haddewid; cyhoeddodd Whitelaw bod y cynlluniau am sianel Gymraeg wedi'u dileu. Mae gwleidyddion yn torri eu haddewidion yn aml, ond roedd y datganiad dideimlad hwn yn annerbyniol yn llwyr, a dwysaodd y gwrthdystiadau.

Dyn uchel ei barch yng Nghymru oedd Gwynfor Evans. Ymatebodd i'r datganiad Whitelaw wrth rybuddio y byddai yn dechrau streic newyn tasai y llywodraeth yn torri'i haddewid. Doedd dim modd i lywodraeth Thatcher ei anwybyddu; dyma ŵr bonheddig a diwylliedig, a hefyd dylanwadol a phenderfynol.

Yn y diwedd, gorfodwyd William Whitelaw i drwsio'r addewid toredig, a dechreuodd S4C trosglwyddo y 1af mis Tachwedd 1982.

Roedd pryderon wedi bod o'r cychwyn cyntaf bod cyn lleied o bobl yn gwylio S4C, neu wrando ar Radio Cymru. Yr ateb yw adleoli cyfrifoldeb am y cyfryngau yng Nghymru o San Steffan i Fae Caerdydd, ac i roi cefnogaeth ariannol go iawn i'n gwasanaethau radio a theledu, naill ai drwy'r ffi trwydded deledu neu drwy drethi cyffredinol. Wedyn y gallwn fforddio gwella safonau'r rhaglenni ac ennill parch dros ein hiaith a'n diwylliant.

***Pat Soper, Dyfed, 1 Gorff 2020***

**RHIFYN TACHWEDD / RHAGFYR 'Y LLIEN GWYN'**

**Anelwn at gael y deunydd i** mewn erbyn 30-11-20 ond gellid danfon atom unrhyw bryd ac fe ddaw rhifyn allan pan fydd y papur yn llawn.

# CODI ARIAN HANFODOL I'R HOSBIS I BLANT TŶ HAFAN

Ers iddo agor yn 1999 mae Tŷ Hafan, yr elusen sydd yn cynnig gofal a chymorth i blant a phobl ifanc sy'n byw bywydau byr, wedi cefnogi dros 850 o blant a'u teuluoedd. Fel rhan o ymgyrch codi arian at yr elusen bwysig hon mae un o'i gwirfoddolwyr, Juliet Bebbington, wedi ysgrifennu cyfrol hwyliog i blant gynradd gyda'r holl elw yn mynd tuag at yr hosbis.

Mae *Draig o'r enw Môr* (Y Lolfa) yn stori am ddraig las, unig sy'n dod o'r môr, sydd dim ond yn cael ei gweld gan rai sy'n credu mewn dreigiau. Mae'r ddraig fach fusneslyd yn mynd i chwarae gyda phlant yr hosbis yn Nhŷ Hafan ac yn mwynhau helpu'r plant a'r staff. Mae'r gyfrol yn dangos gwerth bod yn garedig, i gydymdeimlo a bod yn sensitif i anghenion pobl eraill, ac yn bwysicaf oll, i ddangos cariad. Mae'r stori wedi ei rhannu'n benodau byrion, lle mae'r ddraig yn helpu'r plant mewn sefyllfaoedd penodol, fel mynd am drip i lan y môr, sychu dillad, a therapi cerdd.

Mae'r awdures, Jilly Bebbington, wedi bod yn gweithio fel cynorthwyydd gwirfoddol yn Nhŷ Hafan ers dros 20 mlynedd. Meddai:

"Rwyf wedi darllen a dyfeisio gymaint o storïau i'r plant yn yr hosbis dros yr 20 mlynedd rwyf wedi bod yn gwirfoddoli yno. Er y rhesymau trist y tu ôl i fodolaeth yr hosbis mae'n lle hwyliog iawn – y lle mwyaf hwyliog rwyf erioed wedi gweithio ynddo. Mae 'na ymdeimlad o *carpe diem* yn perthyn i'r lle. Mae'r hosbis yn gwneud gwaith mor bwysig gyda'r plant a'u teuluoedd, roeddwn yn awyddus iawn i godi arian iddyn nhw. Mae hyd yn oed yn fwy pwysig nawr, gan fod holl gynlluniau codi arian yr elusen wedi bod ar stop ers Covid-19."

Meddai Aled Islwyn, a gyfieithiodd y llyfr i'r Gymraeg:


"Mae codi ymwybyddiaeth o waith gwerthfawr Tŷ Hafan yn arbennig o bwysig ac amserol ar y funud, am fod peth sylw wedi'i roi'n ddiweddar i sefyllfa ariannol fregus y sefydliad. Dyw Tŷ Hafan ddim yn rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Elusen ydyw, ac yn ogystal â derbyn ein cefnogaeth ariannol, mae'n bwysig ein bod yn gwerthfawrogi cyfraniad y lle i'n cymdeithas, ac i bawb sy'n ei gynnal."

Tŷ Hafan yw un o brif elusennau gofal lliniarol pediatrig y Deyrnas Unedig ac mae'r elusen yn cynnig y gwasanaeth dros Gymru gyfan. Er mwyn sicrhau'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, mae angen i'r elusen godi £4.4. miliwn y flwyddyn.

"Roedd yn bleser cael bwrw iddi i addasu'r straeon hynod wreiddiol hyn i'r Gymraeg. Maen nhw'n annwyl ac yn smala, ac yn rhoi cip annisgwyl inni ar waith llesol Tŷ Hafan. Un o'r pethau rwy'n ei edmygu fwyaf yw'r ffaith fod yr adnoddau a'r triniaethau a gynigir yno wedi eu gwau'n rhan annatod o'r straeon. Dyma le sy'n cynnig cysur a diddanwch i blant bregus, heb sôn am roi hoe i rieni sy'n byw dan fygythiad argyfyngus parhaus. Gallwn ymdeimlo â naws a dyhead y lle yn y storïau hyn," meddai Aled Islwyn.

Mee'r gyfrol yn gydweithrediad rhwng y Lolfa a Thŷ Hafan, ac mae fersiwn Saesneg hefyd ar gael (*A Dragon Called Môr*). Mae lluniau du a gwyn i gyd-fynd â'r testun gan Andrea Grealy. Bydd holl elw'r gyfrol yn mynd tuag at yr hosbis.

**Mae *Draig o'r enw Môr* gan Jilly Bebbington (cyf. Aled Islwyn) ar gael nawr (£4.99, Y Lolfa).**




SGANIO DEFAID HEDD DAVIES




yn Dathlu 20 Mlynedd Mewn Busnes

Ffoniwch: 01239 820342 / 07780905340

# Cyfrol Arloesol yn Trafod Dibyniaeth ar Alcohol yn y Gymru Gymraeg

**Yn ôl ymchwil gan Alcohol Change UK mae chwarter oedolion Cymru wedi cynyddu faint o alcohol maent yn ei yfed yn ystod cyfnod y Clo Mawr, gyda gwerthiant diodydd meddwol wedi neidio i fyny 31% yn ystod mis Mawrth eleni.**

Mae'r llyfr newydd *Un yn Ormod* a olygwyd gan Angharad Griffiths (Y Lolfa) yn un amserol felly ac yn gobeithio agor y drafodaeth o berthynas unigolion gydag alcohol ac yn cynnig cymorth drwy'r Gymraeg ar bwnc sensitif iawn.

Meddai'r golygydd Angharad Griffiths:

"Dydi bod yn gaeth i alcohol ddim yn rhywbeth du a gwyn. Y cwestiwn sydd angen ei ofyn ydi: nid ydi faint dwi'n ei yfed yn ormod, ond ydi faint dwi'n ei yfed yn fy neud i'n anhapus."


Daeth Angharad Griffiths i'r amlwg ar ôl iddi rannu ei stori bersonol hi am stopio yfed alcohol.

"Mi nath alcoholiaeth ddwyn fy nghefnder a'm ffrind Gareth 'Chef' Williams yn 39 oed – ac mae'r gyfrol yma er cof amdano fe. Y mwya o straeon sobri sydd mas yna, mae'n rhoi gobaith i'r bobl sydd yn dal i ddiodde' – neu'n dechrau sylweddoli bod alcohol yn achosi problemau yn ei bywydau," meddai Angharad.

Gan ddilyn yr un fformat â nifer o lyfrau eraill y Lolfa ar iechyd – *Gyrru drwy Storom*, *Galar a Fi*, *Byw yn fy Nghroen* – a'r gyfrol *Codi Llais* am hawliau merched, mae'r gyfrol yn cynnwys amryw o arddulliau gan gynnwys ysgrifau, straeon byrion a deialog.

Ceir Rhagair gan Ffion Dafis sydd wedi ysgrifennu am ei phrofiadau hi gydag alcohol yn ei chyfrol *Syllu ar Walia'* (Y Lolfa, 2017). Meddai Ffion:

"Rwy mor falch gweld llyfr yn trafod alcohol yn y Gymraeg. Mae alcohol yn rhan greiddiol o'n cymdeithas ni yma yng Nghymru ac mae o'n cwmpas ni ym mhob man. Yn wir, mae'n cael ei annog o oedran cynnar iawn, felly tydi hi'n ddim syndod bod cymaint yn gaeth."




Mae ymgyrchoedd diweddar blynyddol fel *Sober October* a *Sober January* wedi codi ymwybyddiaeth pobl am faint maen nhw'n ei yfed ond nid peth hawdd ydi dinoethi'r pwnc pan mae stigma'n dal i fodoli.

"Mae angen dewrder eithriadol i ysgrifennu am y profiadau yma ac rwy'n falch iawn o'r holl gyfranwyr am fod yn fodlon siarad yn agored. I feddwl faint mae'r Cymry yn yfed does dim llawer o lyfrau yn y Gymraeg yn delio gyda hyn!" meddai Angharad Griffiths.

**Rhestr o'r cyfranwyr:** Ffion Dafis; Angharad Griffiths, Derith Rhisiart, Guto Rhun, Wynford Ellis Owen, Iola Ynyr, Lloyd Jones, Owain Williams, Rhiannon Boyle, Iwan 'Topper' Evans, Carol Hardy, Jon Gower, Neil 'Maffia' Williams, Elin Meredydd.

Bydd yna drafodaeth rhwng y golygydd Angharad Griffiths ac Iola Ynyr ac Neil 'Maffia' Williams yn rhan o'r Eisteddfod AmGen am 11yb ar fore Sadwrn 8fed o Awst. Mae *Un yn Ormod* gan Angharad Griffiths (gol.) ar gael nawr am £8.99.

*Jac Williams a'i Fab*
GAREJ
PONTIAGO

*Gwasanaeth cyweirio ceir*
*M.O.T.*
*Petrol a Disel*
**Ffôn: Tremarchog**
**01348 891244**



Gwelir gerddi Penlan Uchaf ymysg y bryniau ar lethrau Cwm Gwaun. olygfeydd gwych a nant fynyddig yn rhedeg ochr yn ochr â'r fferm. Mwynhewch dawelwch y wlad ynghyd â theisennau cartref a lluniaeth ysgafn. Pecynnau cig oen ac eidion gwartheg hirgorn ffres neu rewedig ar gael yn ddyddiol.

AR AGOR YN DDYDDIOL

Dewch am dro i:
Gerddi Penlan Uchaf, Cwm Gwaun, Abergwaun, SA65 9UA
Ffôn: 01348 881388
neu 07773 789850
ebost: robert@carnedward.co.uk
WWW.CARNEDWARD.CO.UK
Cig oen ac eidion hirgorn Carnedward
Welwn ni chi yn y sioeau!

**Danfonwch hanes eich TEULU CHI i: lliengwyn@papurbro.org**

Pritchard– –Cowburn
**OPTEGYDD**
*(Sefydlwyd 1961)*
**Optegydd Offthalmig Cofrestredig**

19 Pendre, Aberteifi, Ceredigion. SA43 1JT
☎ **01239 - 612004**
Spring Gardens, Narberth, Pembrokeshire. SA67 7AW
☎ **01834 - 861660**
Canolfan Iechyd, Stryd Argyle, Pembroke Dock. SA72 6HL
☎ **01646 - 689907**
**www.pc-optician.co.uk www.optegydd.com**

**Derwen**

**Huw Williams**
H.N.D., C. & G. (Arb)
**ARBENIGWR COED**
Cymwysterau a Yswiriant llawn am bob math o waith coed
Gwasanaeth torri coed peryglus a thrafferthus
Coedsgiodwr symudol ar gael
Ffôn: **01348 811355**
Symudol: **07870 764826**

Jones Login
Teithiau o Safon
*Quality Coach Travel*

Login
Hendygwyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn 01437 563277
www.joneslogin.co.uk



**Croeso i'n dewis o wibdeithiau, theithiau i sioeau, gwyliau byr a gwyliau hir am 2020 a 2021. Mae rhywbeth at ddant pawb. Mynwch gopi o'n llyfryn neu ewch ar lein i weld y manylion llawn. Yn yr amser rhyfedd a phryderus yma cadwch yn iach ac yn ddiogel ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu ar ein teithiau yn y dyfodol agos.**

## Teithiau 2020 / 2021

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Hydref 2020** | | |
| 3 | Canolfan Arddio y'r Hen Linell, Aberhonddu a thref Aberhonddu | 1 |
| 24 | Y Bathdy Brenhinol, Llantrisant | 1 |
| **Tachwedd 2020** | | |
| 6 | Paignton – Torcï a Uchelwedd | 4 |
| 21 | Longleat – Gwlad y Goleuni | 2 |
| 30 | Ffair Aeaf Llanelwedd | 1 |
| **Rhagfyr 2020** | | |
| 6 | Nadolig yng Ngerddi Kew | 2 |
| 12 | Marchnad Nadolig Caerdydd | 2 |
| 12 | Siopa Nadolig – Trago Mills, Merthyr Tydfil | 1 |
| 23 | Gwyliau Nadolig – Bournemouth | 6 |
| **Ionawr 2021** | | |
| 23 | Sioe – We Will Rock You / Bae Caerdydd | 1 |
| **Ebrill** | | |
| 6 | Taith Ddirgel | 1 |
| 17 | Sioe – School of Rock / Bae Caerdydd | 1 |
| 19 | Swydd Caer – Halen, Sebon a Sidan | 5 |
| 24 | Sioe – Singing in the Rain / Bae Caerdydd | 1 |
| 27 | Lock, Stock a'r BBC | 5 |
| **Mai** | | |
| 17 | Efrog – 'Ramble in the Shambles' | 6 |
| 22 | Strictly Come Dancing – Y Dawnswyr Proffesiynol | 1 |
| 22 | Caerdydd | 1 |
| **Mehefin** | | |
| 1 | Taith Ddirgel | 1 |
| 5 | Saffari Siocled (Cadbury a West Midland) | 2 |
| 7 | Gwesty Warner – Cricket St. Thomas | 5 |
| 16 | Diwrnod y Merched, Ascot | 3 |
| 21 | 'Brighton' up the week on the South Coast | 5 |
| 28 | Potter around the Shires | 5 |
| **Gorffennaf** | | |
| 5 | Iwerddon – Sligo a'r 'Wild Atlantic Way' | 6 |
| 15 | Ceinewydd – 'The Quay to Cornwall' | 5 |
| 20 a 22 | Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd | 1 |
| 22 | Ynysoedd Shetland, Alban | 9 |
| 28 | Taith Ddirgel | |

## Teithiau 2021 / 2022

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Awst** | | |
| 2, 4 a 8 | Eisteddfod Genedlaethol, Ceredigion | 1 |
| 12 | Castell Highclere – 'Abaty Downton' | 2 |
| 31 | Taith Ddirgel | 1 |
| **Medi** | | |
| 9 | Peintiwch ddarlun yn ardal Constable | 5 |
| 17 | Gwesty Warner (Castell Bodelwyddan) | 4 |
| 27 | Devon on Earth | 5 |
| **Hydref** | | |
| 4 | Gwesty Warner (Neuadd Thoresby) | 5 |
| 14 | Concorde, Castellau & Tharwyr Cadau | 5 |
| 30 | Addurniadau Nadolig Abaty Cwm Hir | 1 |
| **Tachwedd** | | |
| 20 | Sioe – Y Commitments / Bae Caerdydd | 1 |
| 27 | Sioe – Sister Act / Bae Caerdydd | 1 |
| **Rhagfyr** | | |
| 4 | Sioe – Strictly Ballroom / Bae Caerdydd | 1 |
| 5 | Nadolig yn Windsor | 2 |
| 6 | Siopa Nadolig – Trago Mills, Merthyr Tydfil | 1 |
| 23 | Nadolig yn Bournemouth | 5 |
| **Gorffennaf 2022** | | |
| 9 | Sioe – Lion King / Bae Caerdydd | 1 |

**Bysiau 8 – 70 sedd ar gael i'w hurio am deithiau pleser a busnes.**

## Llyfryn newydd 2021 ar gael nawr!

**Mynwch eich copi gan ffonio 01437 563277, neu edrychwch ar lein:**

www.joneslogin.co.uk/media/1151/2021-brochure.pdf



**Gwasanaeth Drws-i-Ddrws ar deithiau 4 dydd neu fwy, o'r ardal hon!!**

# NEWYDDION O'CH ARDAL CHI

## ABERGWAUN

CÔR ABERGWAUN

Mae'r Côr wedi bod yn dawel iawn dros yr Haf ! ac erbyn hyn rydym fel arfer yn barod i ail ddechrau unwaith eto. Yn anffodus mae'r sefyllfa Cofid dal efo ni ac wrth gwrs nid ydym yn gallu canu gyda'n gilydd eto. Byw mewn gobaith inni na fydd hi'n rhy hir cyn y gallwn cyd ganu'r HALELIWIA !!!

Mae'r Côr (fel arfer) yn cwrdd pob nos Lun yn Festri Hermon am 7.30yh. Os oes diddordeb gennych i ymuno efo ni, bydd croeso cynnes iawn yn eich disgwyl-ar ol i hyn basiô !!

NEWYDDION O THEATR GWAUN

Mae'r theatr ar gau ar hyn o bryd oherwydd y sefyllfa gyda'r feirws Cofid 19. ond mae'r pwyllgor yn bwrw ati i wneud gwaith adnewyddu a chynllunio rhaglen newydd gyffrous ar gyfer yr adeg pan fydd yn bosib ailagor. Medrwch cadw lan da'r newyddion diweddara trwy edrych ar y wefan neu tudalen Facebook.

Edrychwch ar y wefan am fanylion ac amserau y perfformiadau. www.theatrgwaun.com rhif ffon – 01348 873421 neu ebost info@theatrgwaun.com

LLONGYFARCHIADAU I

i staff siop flodau Allison - The Flower Garden sy'n dathlu 18 mlynedd yn y busnes.

CYDYMDEIMLWN Â

Pam a Rachel, ar farwolaeth eu mam, y ddiweddar Mrs Lillian Grace Thomas, nee Coomber - y Wallis. Bydd sawl un yn cofio amdani yn gweithio fel Gofalwraig Amser Cinio yn safle yr Hen Ysgol Uwchradd (Blwyddyn Gyntaf) Penbanc.

Kathryn a Noel, ar farwolaeth eu mam, y ddiweddar Mrs Kathleen Foot, Clive Rd. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys y Santes Fair ac Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth.

David, Kelvin, Amanda a Phillip a Cynthia, ar farwolaeth gwraig, mam a chwaer; y ddiweddar Mrs Eirlys Roche, Heol Cleddau.

Janice, Dylan, Gareth a Natasha, Nicky ac Andrew ar farwolaeth gŵr, tad a brawd a brawd yng nghyfraith sef y diweddar Mr Michael John Berry.

Teulu a ffrindiau y diweddar Mr David (Dai) Price.

Morwen, Hywel a Glesni, Lindy a Robert, ar farwolaeth gŵr, tad a thad yng nghyfraith annwyl; y diweddar Mr Huw James Pen yr Aber.

## WDIG

CYDYMDEIMLWN Â

Teulu a ffrindiau y ddiweddar Mrs Helen Scurlock, Stop and Call

Maureen Keating ar farwolaeth ei gŵr, y diweddar Mr Michael Keating, Dyffryn.

Teulu y diweddar Mr Phillip McKee, Hillside Crescent.

LLONGYFARCHIADAU I

Leonie a Daniel Wilkes, Dyffryn, ar enedigaeth merch fach arall - Maya Rose, chwaer fach newydd i Amelie.

## TRELETERT

CYDYMDEIMLWN Â

Teulu a ffrindiau y diweddar Mr Paul Groves.

Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn y ddiweddar Mrs Rhian Taylor. Bydd llawer yn ei chofio fel prifathrawes Ysgol Castellhaidd. Cydymdeimlwn a'i gŵr Stuart.

## DINAS

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Ann Hughes. Glandy, (trysorydd Y Llien Gwyn) a'r teulu cyfan o golli gŵr a thad a thadcu ym mis Medi. Bu John Hughes yn athro cerdd yn Ysgol Dewi Sant am flynyddoedd ac yr oedd yn gerddor adnabyddus ac yn organydd medrus. Eglwys San Pedr yng Nghasnewydd Bach gafodd ei wasanaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r Parchedigion Richard Davies ac Alwyn Daniels wasanaethodd yn ei angladd ym mynwent Macpelah yn y Dinas.

Hefyd, cydymdeimlwn â Orissa Watts, Bryn y Mor, sydd wedi colli ei brawd; y diweddar Mr Meredith James, Dinas a gynt o Scleddau.

Cofiwn am deulu a ffrindiau y ddiweddar Mrs Jean Buchanan, nee Stark, Cartref Gofal Langton

Yn olaf, meddyliwn am deulu a ffrindiau y diweddar Mr Joe Jenkins.

## TREFDRAETH

DYMUNIADAU GORAU i Glan Rees Cerdd-y-Don sydd newydd gael triniaeth yn Ysbyty Treforys.

LLONGYFARCHIADAU

Dau o bobl ifanc y Dinas yw diprwy brif ferch a prif fachgen Ysgol Bro Gwaun, Abergwaun eleni. Phebe Salmon, Parc yr Eglwys gafodd ei dewis o blith y merched a Rhys Evans, Brynhenllan o blith y bechgyn. Mae'r ddau yn digwydd bod yn gyn ddisgyblion Ysgol Gynradd Llanychllwydog. Llongyfarchiadau i'r ddau a dymuniadau gorau am y flwyddyn. Hefyd, llongyfarchiadau cynnes i Ffion Williams Castle Terrace ar ei dyweddiad.

## CASMAEL

LLONGYFARCHIADAU

Pen-blwydd Hapus i Ellis Reed, Aelybryn, yn 60 oed.

Pen-blwydd Hapus i Graham Harries, Felin Wern, yn 60 oed.

Pen-blwydd Hapus i Katherine Lewis, Parc y bore, yn 50 oed.

Pen-blwydd Hapus i Ioan Lewis, Station View, yn 40 oed.

GWELLHAD BUAN I

Des Lewis, Fagwrfran, ar ôl treulio amser yn ysbyty Llwynhelyg yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU

I Dewi a Mary Lewis, Windy Hill ar ddathlu Priodas Rhuddem.

CYDYMDEIMLWN Â Mr Peter Morse, Heddfan a'i deulu wedi marwolaeth ei fam, Mrs Eirwen Morse.

## PENCAER

Trist iawn yw cofnodi colli Mrs Rosemary Johns, Carne Coch yn ôl yng Ngorffennaf yn Ysbyty Llwynhelyg. Cydymdeimlwn yn ddidwyll â'i phriod Oliver ac â'i phlant, Angela, Jenny a David a'i hwyrion. Cynhaliwyd angladd yn ôl y drefn bresennol ym Mynwent Llanwnda ar Orffennaf. 29 ain.

LLONGYFARCHIADAU MAWR

i Eleri ac Euros Lewis, (neu Eleri Pontiago i bobol Pencaer ) ar ddod yn famgu a thadcu ar Awst 21ain yng Nghaerdydd. Gobeithio, yn ôl y rheol bresennol eu bod wedi cael gweld Gwyddno Llywelyn erbyn hyn. Croeso i'r byd rhyfedd hwn.

Hyfryd clywed bod Richard Lewis, Tresinwen wedi adfer ei iechyd yn ddiweddar wedi cyfnod o driniaeth. Cofion gorau at Angelina Delaney, Trefisheg sydd hefyd wedi bod yn anhwylus.

**lliengwyn@papurbro.org**

# TREMARCHOG

Wel dyma ni wedi ceisio bod yn ddarbodus yn ystod y saith mis diwethaf, yn dal yma ond y canllawiau yn dal gyda ni ac yn bygwth tynhau unwaith eto. Amynedd a gofal piau hi felly.

Bu ffyrdd Tremarchog yn dawel iawn am fisoedd ond yn ystod y deufis diwethaf mae dwndwr y traffig yn ei ôl fel arfer. Mae pebyll a chartrefi symudol yn britho'r cae ar draws y cwm wrth i'r teuluoedd ddewis gwyliau cefn gwlad yn lle tramor.

Mae neuadd y pentref yn dal ar gau er bod ambell un yn holi a fydd modd dychwelyd er gwaethaf yr amodau heriol o hunan ynysu a glendid.

Ond pwnc trafod y bump wythnos ddiwethaf yw effeithiau'r storom ar y 10fed.o Awst. Tarwyd y pentref gan fellten a dorrodd ein cysylltiad â'r ffôn a'r rhyngrwyd. Roedd unarddeg ar hugain o dai wedi'u heffeithio. Ymhen hir a hwyr cafwyd caniatad i gau'r ffordd a gosod gwifrau copor newydd yn y dyctiau. Yn anffodus fe'u rhoddwyd yn y dyctiau anghywir felly bu raid gofyn am ganiatad i ail gau'r ffordd er mwyn cywiro'r cam. Ar y 9fed. o Fedi cafodd y tŷ olaf ei gysylltu â'r byd mawr. Hunan ynysu triphlyg felly! Roeddcytundebbodunty̑ynypentrefwedi'u werthu ond daeth popeth i ben oherwydd y Cofid. Erbyn hyn fodd bynnag mae'r ail wampio ar yr hen dŷ yn mynd yn ei flaen. Felly mae hyd yn oed lle bach diarffordd fel Tremarchog wedi gorfod addasu i'r drefn newydd.

Gobeithiwn am hydref tyner fydd yn rhoi cyfle i ofid y Covid gilio unwaith eto...



**Rocesi'r Fro'n mentro cynnal picnic bach yn yr awyr agored, gydag ymbellhau cymdeithasol, yng ngardd Judith yr Ysgrifenyddes ar ddiwedd mis Gorffennaf er mwyn dal i fyny ar ôl y cyfnod clo.**

## ROCESI'R FRO

Wrth reswm bu'n rhaid diddymu cyfarfodydd Ebrill a Mai o Rocesi'r Fro oherwydd y pandemig. Wedi pedwar mis o ynysu, a'r hawl i gwrdd mewn grwpiau y tu allan ar y gorwel, cafodd y swyddogion syniad amgen o sut y gellid dod at ei gilydd er mwyn cymdeithasu'n saff yn yr awyr agored. Trefnwyd felly bicnic bach yng ngardd Judith yr ysgrifennydd ddiwedd Gorffennaf, gan greu cyfle hefyd i gynllunio rhywfaint ar gyfer yr hydref, a chael tamaid bach o hwyl - gan gofio cadw at y canllawiau ymbellhau cymdeithasol.

Pan ddaeth y dydd, roedd y tywydd yn garedig iawn a braf oedd cael cyfarfod o gwmpas byrddau a oedd wedi eu gosod allan mewn modd diogel a chael blasu'r bwyd arbennig a baratowyd gan y ddwy Marilyn, Myfanwy, Siân Morris a Judith. Yn ystod y cyfnod clo bu Kerry Turner, Tyriet a Judith Wainwright yn hybiau casglu bwyd ar gyfer Oergell Gymunedol Abergwaun ac Wdig a osodwyd i fyny ar gyfer y rhai oedd wedi cael eu heffeithio'n ariannol gan y Covid ac yn methu fforddio bwyd. Roedd nifer o aelodau Rocesi'r Fro wedi cyfrannu tuag ato eisoes ac am nad oedd y rhai a fu'n paratoi'r bwyd i'r picnic yn fodlon cymryd eu talu, ac er mwyn dangos gwerthfawrogiad amdano, penderfynwyd gwneud casgliad i'r achos da hwnnw.

Yn ystod y picnic, cafodd y llywydd cyfredol gyfle i drosglwyddo'r llywyddiaeth am y tymor nesaf i'r is-lywydd Marilyn Lewis a chafwyd cyfle i ddiolch i'r swyddogion i gyd am dymor arbennig. Etholwyd y swyddogion canlynol: Llywydd – Marilyn Lewis; is-lywydd – Daphne Godwin; ysgrifenyddion – Judith Wainwright a Carol Pattinson; trysorydd – Jane Heard; swyddogion adloniant – Marilyn Salmon, Joan Nicholas, Myfanwy Bowen; gohebydd y wasg – Enfys Howells. Diolchwyd yn fawr iawn i Menna James am fod yn llywydd ardderchog y llynedd.

Mentrwyd cynllunio ychydig hefyd am y tymor nesaf, er gwaethaf y pandemig, yn y gobaith y byddai amgylchiadau'n gwella. Yn anffodus, bu'n rhaid anghofio'r daith i ymweld â stablau rasio Peter Bowen yng Nghasnewydd Bach ym mis Medi ac oherwydd y 'Rheol o Chwech' sydd bellach mewn grym, mae'n annhebygol iawn y bydd y Rocesi'r cyfarfod yn y dyfodol agos. Gellir ail edrych ar y sefyllfa ar ôl y Nadolig. Diolch o galon felly i Judith am agor ei gardd i fyny ar ein cyfer ac i bawb a drefnodd yr achlysur cofiadwy hwn mewn cyfnod anodd. Bu'n glo arbennig i dymor 2019-2020.

B. & M. Morgan
Ffordd Tyddewi, Treletert

*Gwasanaeth ceir ac offer fferm o'r radd flaenaf*

Darparwyr peiriannau torri porfa hefyd



✆ 01348 840480

Paul Jenkins a'i Feibion

~ Trefnwyr Angladdau ~
Capel Gorffwys Preifat yn Abergwaun
Cwmni teuluol preifat
Gwasanaeth gofalgar 24 awr

Paul Jenkins
Feidr Castell, ABERGWAUN, SA65 9BB
(01348) 873250

# NEWYDDION YR YSGOLION

## Ysgol Bro Gwaun

### CANLYNIADAU TGAU YSGOL BRO GWAUN – AWST 2020

Mae llywodraethwyr a staff Ysgol Bro Gwaun yn llongyfarch pob disgybl ar eu cyflawniadau. Dywedodd Mr Paul Edwards, Pennaeth Ysgol Bro Gwaun, ‘Mae’r canlyniadau y mae’n myfyrwyr wedi’u cael heddiw yn haeddiannol iawn, ac maent yn dyst i’w gwaith caled drwy gydol y flwyddyn ac mewn blynyddoedd blaenorol. O dan amgylchiadau anodd, mae’r rhain yn gyfres eithriadol o ganlyniadau, ac maent yn adlewyrchiad teg o ymdrechion disgyblion a staff. Aeth ymlaen, ‘Diolchwn i’n myfyrwyr am eu cyfraniad sylweddol i bob agwedd ar fywyd yr ysgol drwy gydol eu hamser yn Ysgol Bro Gwaun, a dymunwn bob llwyddiant iddynt wrth iddynt symud ymlaen i’r bennod nesaf yn eu bywydau’.

Diolch i bawb a weithiodd mor gydwybodol i sicrhau llwyddiant eleni o dan amgylchiadau anodd, a llongyfarchiadau mawr i bawb ar eu perfformiadau.

Roedd y llwyddiannau nodedig A* ac A yn cynnwys: Tomos Davies 12A*; Rowan Hathaway-Henderson 9A*, 2A, 1B, 1C; Joss Lerwill 11A*, 2A; Zoe LaTrobe 9A*, 1A, 1B, 1C; Libby Rands 8A*, 5A; Alonwy Roberts 8A*, 2A, 2B; Madeleine Stott 7A*, 5A; Rebecca Hall 6A*, 3A, 3B; Christopher Harries 4A*, 6A, 2B; Liliana Westrip 3A*, 7A, 2B.



**Ar gampws yr Ysgol a'r Ganolfan Hamdden, mae'n bosib i chi sylwi ar erddi yn tyfu llysiau? Wel, gerddi cymunedol ydy rhain, yn cael eu datblygu gan wirfoddolwyr. Maen nhw wedi manteisio ar y tywydd mwyn 'Haf Bach Mihangel' i wneud mwy o waith ar y prosiect. Da iawn wir!**

### PRIF DDISGYBLION 2020-21



**Mae’n bleser gan Ysgol Bro Gwaun gyflwyno ei phenaethiaid newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020-21. Y prif swyddogion llwyddiannus yw Huw Davies (prif fachgen), Megan Davies (prif ferch), Rhys Evans a Rhys Williams (Dirprwy Brif fechgyn) a Phebe Salmon a Nancy Mason-Hoskins (Dirprwy Brif ferched). Cafodd y tîm hwn o chwech eu hethol i’w swyddi ar ôl dioddef cyflwyniadau cais trwyadl, rhestr fer a phroses gyfweld ffurfiol.**

**Dywedodd Mr Edwards, y pennaeth, ‘Bydd y tîm estynedig hwn o brif ddisgyblion yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi pob un o’n disgyblion pan fyddant yn dychwelyd i’r ysgol ym mis Medi. Ar ran y staff a’r disgyblion, estynnaf fy nymuniadau gorau iddynt yn eu rolau newydd.**

**LLONGYFARCHIADAU MAWR** i Tomos Evans, cyn-ddisgybl yn Ysgol Bro Gwaun, am ennill gwobr Merêd 2020, am ei gyfraniad arbennig i fywyd Cymraeg mewn Prifysgol. Mae yr Ysgol yn falch iawn ohonot ti Tomos. Pob lwc am y dyfodol.

Dyfernir Gwobr Goffa Meredydd Evans (Gwobr Merêd) yn flynyddol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae’r Wobr yn cydnabod cyfraniad myfyriwr sydd yn aelod cyfredol o’r Coleg i’r bywyd a’r diwylliant Cymraeg, o fewn prifysgol yn ehangach.

Mae Tomos wedi bod yn astudio newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Caerdydd lle y bu'n olygydd ar y cylchgrawn 'Gair Rhydd'. Yn ystod y flwyddyn ddiwetha, mae |Tomos wedi dechrau ei yrfa fel newyddiadurwr digidol gyda S4C




**Danfonwch newyddion eich YSGOL CHI i'r Llien Gwyn:**
**lliengwyn@papurbro.org**

# Ysgol Bro Ingli

**Helo a chroeso nôl cyn yr Haf**

Croesawyd rhan fwyaf o ddisgyblion yn ôl i'r ysgol dros gyfnod o bedair wythnos cyn gwyliau'r haf er mwyn iddynt gael cyfle i ddal i fyny gyda'i gilydd a dod yn gyfarwydd gyda sefyllfa newydd yn yr ysgol yn dilyn y cyfnod clo. Bu lot o baratoi gan y staff ymlaen llawn er mwyn sicrhau fod y byrddau 2 fetr ar wahân, rhoi tâp ar y llawr i sicrhau cadw pellter, lleoli gorsafoedd diheintio ym mhobman ynghyd â threfnu ffyrdd un ffordd o gwmpas yr ysgol.

Yn sicr roedd pawb wrth eu bodd yn gweld ei gilydd eto a hefyd roedd yn bwysig ein bod wedi cael y cyfle i gael 'practice run' ar sut fyddai pethau yn gweithio ym mis Medi.

**Hwyl Fawr Blwyddyn 6**

Roedd hi'n amser rhyfedd iawn i ddisgyblion blwyddyn 6 eleni oherwydd y cyfnod clo a'r Covid. Trwy lwc, roeddent wedi cael eu hwdis ymadael ym mis Mawrth ac felly roeddent yn medru gwisgo'r rheiny yn falch yn ystod y cyfnod clo.

Fel arfer byddai nifer o weithgareddau wedi'u trefnu ar eu cyfer ond roedd hi'n amhosib gwneud nifer ohonynt oherwydd cyfyngiadau'r Covid-19. Trefnwyd eu bod yn dod i mewn i'r ysgol ar y dydd Mercher olaf o'r tymor gyda dim ond nhw a'r staff yn yr ysgol.

Trefnwyd fod Lloyd Graffiti yn dod i'r ysgol i wneud murlun arbennig i gofio am eu hamser yn yr ysgol ond hefyd i ni fedru cofio nhw mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r murlun yn edrych yn wych ac mae wedi'i leoli tu allan i ddosbarth Pwll Gwaelod- eu dosbarth olaf ym Mro Ingli.

Amser cinio, roedd Miss Annette wedi trefnu picnic arbennig iddynt i fwyta allan yng nghae'r ysgol lle roedd eu teuluoedd yn dod i gwrdd â hwy a rhannu picnic pellter. Roedd yn ddiwrnod heulog ac roedd pawb wrth eu bodd yn ymlacio yn yr haul ar eu blancedi picnic. Yn dilyn llenwi ein boliau symudwyd ymlaen i'r seremoni wobrwyo. Roedd Mr Davies wedi paratoi tystysgrif doniol i bob plentyn yn eu gwobrwyo am rhywbeth arbennig fydd yn aros yn y cof gyda ni yn y dyfodol. Ar ôl tipyn o chwerthin a thynnu coes roedd hi'n amser symud ymlaen i'r seremoni wobrwyo difrifol. Ar ddiwedd cyfnod pob blwyddyn 6 mae gan yr ysgol nifer o dariannau i gyflwyno i blant sydd wedi serennu mewn gwahanol feysydd.

- Tarian Merched y Wawr Trefdraeth am gyfraniad i fywyd Cymraeg yr ysgol – rhannwyd rhwng Oscar Ellis a John Knott
- Tarian Mathemateg Mrs Matthews am serennu mewn gwaith mathemategol – Jac Sharkey
- Tarian Dora Thatcher am serennu mewn gwaith Saesneg – Eleanor McCrory
- Victor a Victrix Ludorum am fod y bachgen a'r ferch gyda mwyaf o bwyntiau yn y mabolgampau a gynhaliwyd dim ond gyda blwyddyn 6 – Ewan Griffiths ac Efa Evans
- Tarian Newydd er cof am Enid Davies a gyflwynwyd gan Fraser Trust am gyfraniad i fywyd creadigol yr ysgol – Millie Mai Evans

I goroni'r diwrnod roedd eu rhieni wedi trefnu parti sypreis i'r disgyblion lawr ar y Parrog y noson hynny. Wrth gwrs, unwaith eto roedd pawb yn sicrhau cadw pellter ond roedd yn hyfryd i gael cyfle i gymdeithasu a sicrhau fod eu hwyl fawr gyda Bro Ingli yn un i'w gofio.

**Hwyl Fawr Miss Waters**

Ar ddiwedd tymor yr haf roedd yn amser i ni ffarwelio gyda Miss Lowri Waters hefyd. Roedd Miss Waters gyda ni dros gyfnod mamolaeth Mrs Eleri Dufty ac mae'n sicr wedi gadael ei marc ar yr ysgol gan mai eu chynlluniau hi sydd ar y murluniau tu fas i'r Cyfnod Sylfaen bu Ffrindiau Bro Ingli yn eu peintio. Mae Miss Waters wedi sicrhau swydd yn Ysgol Cenarth a dymunwn pob dymuniad da iddi gan ddiolch o galon iddi am bopeth wnaeth hi dros ei chyfnod yma ym Mro Ingli. Gwnaed casgliad iddi a phrynwyd anrheg o ddiolch i ddangos ein gwerthfawrogiad.











# Ysgol Casblaidd

**BLWYDDYN NEWYDD**

Rydym i gyd disgyblion a staff yn falch iawn i ddychwelyd i'r Ysgol. Braf yw gweld pob disgybl yn ôl gyda ni. Rydym yn croesawu Archie, Ginny, Ifan a Kiana i'r grŵp meithrin rhan amser.

Er bod rhediad y dydd a gweithgareddau Ysgol gyfan wedi newid peth, mae'r disgyblion yn gyffrous iawn i fod nôl yn yr Ysgol ac i ddysgu eto yng nghwmni eu cyfoedion a ffrindiau.

Rydym yn edrych ymlaen at weld y plant (ar Facebook) yn canu yng ngwasanaeth Dydd Sul Capel Pen y Bont ar Ddydd Sul Medi 27ain ac rydym yn paratoi ac ymarfer ein gwasanaeth digidol ar gyfer Y Diolchgarwch a bydd hefyd yn cael eu darlledu trwy dudalen Facebook y capel. Diolch i Parchg Eynon am drefnu hyn.

Ar ddechrau blwyddyn newydd yn yr ysgol mae'r disgyblion wedi ethol Sam Berry fel ein capten ysgol. Llongyfarchiadau gwresog iawn i Sam a'r holl swyddogion eraill sydd yn dechrau eu cyfrifoldebau am y flwyddyn.

Dirprwy gapten- Anabel Talbot-English

Cyngor Ysgol-Carys Bateman, Luca Talbot English, ac Amabel Talbot English

Criw Cymreictod - Emmie Rose Lewis, Lowri Morris a Gethin Miles

Cyngor Eco- Owain Peakman ac Alfie Barnett.

Mae'r cynghorau yn brysur yn cynllunio amserlen o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn gan gynnwys gwaith plannu, datblygu a thacluso meysydd yr Ysgol, codi arian ar gyfer elusennau lleol ac i brynu "Sied Siarad" ar gyfer lles ac iechyd yn yr Ysgol.

**LLYTHYR ARBENNIG** Roedd Ruby Bunston, disgybl Blwyddyn 5, yn llawn cyffro wrth ddychwelyd i'r ysgol gan fod llythyr arbennig iawn wedi cyrraedd trwy law'r postmon. Derbyniodd Ruby llythyr oddi wrth yr awdures enwog J.K Rowling. Daeth hyn i ben oherwydd roedd Ruby wedi cwblhau prosiect ar Harri Potter fel rhan o'n gwaith dysgu cyfunol nôl yn yr haf.

**OFFER CHWARAE NEWYDD** Diolch yn fawr iawn i bwyllgor y Rhieni a Ffrindiau am ariannu offer newydd i'r iard chwarae fel bod y disgyblion yn medru chwarae gyda'r ceir, tractorau a sgwteri ar "ffordd " gyda "maes parcio" a hefyd offer newydd i ddringo a chydbwyso a chadw yn heini. Mae'r disgyblion wrth eu boddau!



# Ysgol Llanychllwydog



Cyn y gwyliau, wedi dros ugain mlynedd fel gofalwraig a glanhawraig yr Ysgol, buom yn ffarwelio â Mrs Linda Davies. Diolchodd y staff a'r disgyblion yn fawr iddi am ei holl waith, a dymuno pob lwc iddi yn ei hymddeoliad. Yn y llun, gwelir Mrs Davies gyda dwy o'i hwyresau, sy'n ddisgyblion yn yr Ysgol.

Ym mis Medi, mae plant Dosbarth Derwen yn mwynhau dysgu am y cyfnod 1939-45 ar hyn o bryd, sef yr Ail Ryfel Byd ac effaith y 'Blits' ar Gymru. Maen nhw wedi dysgu am yr ifaciwis a'r carcharorion rhyfel yn dod i'r ardal, gwrando ar ganeuon Vera Lynn a Bois y Frenni, wedi dysgu am awyrennau yn syrthio ger pentref Dinas ac ar y Preselau, ac wedi trafod Brwydr y Preselau - sef yr ymgyrch i atal y Llywodraeth rhag datblygu ardal hyfforddi filwrol yn ein hardal. Mae cuddfan 'Anderson' wedi ymddangos yn y dosbarth, ond mae'r plant yn falch iawn o glywed na fydd yn rhaid iddynt fyw ar 'Spam' na 'Corned Beef' am weddill y tymor! Maen nhw yn rhyfeddu at y rheolau dogni oedd yn bodoli yn y cyfnod. 'Beth? Dyna i gyd!' oedd yr ymateb wrth edrych ar y 'rations' siocled a losin!

Mae Dosbarth Mês yn dysgu am ddeinosoriaid ac wedi gwneud cysylltiad diddorol gydag aelod o staff Prifysgol Abertawe, sef Dr Rhian Meara. Bu Rhian yn dysgu'r plant am waith y 'palaeantolegydd' (arbenigwr deinosoriaid i chi a fi!) trwy fideo. Yn eu tro, bu'r plant yn anfon cwestiynau ati am ffosiliau a daeareg. Nid hawdd i blant mor ifanc ddeall a thrafod cyfnod mewn hanes sydd mor bell yn ôl, ond gyda help Rhian, maen nhw wrth eu bodd.

---

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

'CYLCHOEDD MEITHRIN YN CERDDED '-7-14 TACHWEDD 2020

Mae y Mudiad Ysgolion Meithrin yn falch iawn o gyhoeddi manylion eu hymgyrch codi arian ddiweddara. Yn dilyn sgil-effeithiau pandemig Covid-19 a'r rheolau ymbellhau cymdeithasol sydd mewn grym, mae'r angen am godi arian ychwanegol i'r Cylchoedd a'r meithrinfeydd dydd yn fwy nag erioed. Bwriedir cynnal yr ymgyrch yn ystod wythnos 7-14 Tachwedd 2020.

Yn ogystal â chodi arian i'r Cylch/feithrinfa bydd hyn yn ffordd o hyrwyddo addysg Gymraeg mewn ffordd hwyliog a gwneud i bawb fydd yn cymryd rhan deimlo fel rhan o 'un teulu mawr' Mudiad Meithrin.

Mae sawl ffordd y gall Cylchoedd gynnal ymgyrch yn llwyddiannus, e.e.

- y plant i wneud taith gerdded noddedig yn ystod amser Cylch – a chael teulu a ffrindiau i'w noddi
- cefnogaeth y gymuned leol – gallant fapio llwybr i aelodau'r gymuned ddewis ei gwneud a chyfrannu arian i'r Cylch
- annog teuluoedd gwahanol i ddewis eu taith eu hunain – gallant ddewis cerdded mewn Cylch o gwmpas parc lleol os nad oes teithiau lleol addas ar gael
- gofyn i gyfeillion y Cylch neu 'selebs' lleol i wneud sialens taith gerdded a rhoi arian i'r cylch
- gofyn i rieni gyfrannu arian mân i'r Cylch a cheisio creu llinell o arian mân o gwmpas y Cylch a chaiff bob Cylch gadw'r arian i'w coffrau ar y diwedd.

Bydd pecyn adnoddau yn cael eu danfon allan i'r Cylchoedd gyda thaflen weithgareddau ar y thema, sticeri, posteri blanc i hyrwyddo'u digwyddiad, taflenni casglu nawdd a manylion am sut i gasglu arian trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

## PWYTH CYNALIADWY MEWN PRYD: ENNILL BRWYDRAU YN ERBYN PLANHIGION GORESGYNNOL

Mae cam diweddaraf prosiect Pwyth mewn Pryd wedi dod â gwirfoddolwyr, contractwyr a pherchnogion tir at ei gilydd yng nghynllun mwyaf rheoli rhywogaethau goresgynnol Sir Benfro hyd yma, gan gwmpasu ardal o bron i 40 hectar yn 2019 - sy'n cyfateb i oddeutu 75 o gaeau pêl-droed.

Mae prosiect Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sy'n ceisio rheoli Jac y Neidiwr a Chlymog Japan mewn ardaloedd allweddol, yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio o bartneriaid gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, Llywodraeth Cymru a Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.

Wedi eu cyflwyno naill ai'n fwriadolneu'nddamweiniol,gallplanhigion goresgynnol dra-arglwyddiaethu ar gynefinoedd gwlypdiroedd a glannau afonydd drwy dyfu'n gryfach na phlanhigion eraill i ddwyn eu gofod a'u peillwyr, gan achosi colledion mawr mewn bioamrywiaeth.

Cyllidwyd cam diweddaraf y prosiect, dan y teitl Pwyth Cynaliadwy mewn Pryd, gan grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles Llywodraeth Cymru gyda chyllid ychwanegol gan Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ynghyd â Dŵr Cymru.

Dywedodd Cydlynydd Prosiect Pwyth mewn Pryd, Matthew Tebbutt: "Mae'r cyllid ychwanegol wedi caniatáu i ni fonitro a chynnal y llwyddiannau a gyflawnwyd yn barod yn nalgylchoedd afon Gwaun a Phorthgain, yn ogystal â pharhau â'n hymdrechion dileu yn nalgylch Clydach ac ymlediad i ardaloedd newydd yn nalgylch Castellmartin yn Ne Sir Benfro.

"Cyfrannodd ein gwirfoddolwyr a'n grwpiau cymunedol 440 awr at y prosiect y llynedd ac roedd y cyfraniad hwnnw'n hanfodol i lwyddiant tymor rheoli 2019. Mae llawer o grwpiau a gwirfoddolwyr yn rhoi amser dro ar ôl tro i'w hardaloedd 'mabwysiedig'. Ni allaf ddiolch digon iddynt, ond rydym yn gwybod nad mater o gyflawni'r gwaith yn unig yw hyn, mae ein gwirfoddolwyr yn ei fwynhau'n fawr a dyna pam eu bod yn dal i ddod yn ôl yn fy marn i."

Ychwanegodd un o'r gwirfoddolwyr, Granville Watson: "Mae mynd yn ôl i leoedd a gweld y llwyddiant yn ysgogiad go iawn i mi. Rydym yn gwybod ei bod yn dasg fawr, yn broblem fawr, ond rydyn ni'n dechrau rheoli'r sefyllfa. Rwyf wedi dysgu llawer am rywogaethau goresgynnol drwy weithio gyda'r prosiect a nawr gallaf rannu rhywfaint o wybodaeth. Gallaf siarad â phobl nad ydyn nhw'n gwybod llawer am Jac y neidiwr a gallaf gyfeirio tirfeddianwyr at y cysylltiadau cywir".

Dywedodd Jonathan Hughes, aelod o grŵp cymunedol: "Pan symudais i'r ardal gyntaf ymunais â Llais Llanychaer, grŵp lleol sy'n ymwneud â'r prosiect Pwyth mewn Pryd, fel ffordd o ddod yn rhan o'm cymuned leol. Roedd modd i mi gysylltu â phobl o'r un anian, datblygu cyfeillgarwch newydd o gwmpas diddordebau cyffredin, ac roedd modd cael sgyrsiau newydd a gwahanol. Mae'n teimlo fel caseg eira, braidd - megis dechrau pethau oedd cymryd rhan."

Er bod y cyfyngiadau yn sgil y coronafeirws wedi golygu bod yr holl weithgareddau gwirfoddoli wedi eu hatal yn ystod cyfnod a fyddai wedi bod yn brysur i'r prosiect, mae cyswllt â gwirfoddolwyr wedi parhau drwy ddigwyddiadau hyfforddi ar-lein er mwyn eu paratoi ar gyfer dull newydd a fydd yn diogelu iechyd a diogelwch pawb dan sylw. .

Er mwyn diogelu'r cynnydd a wnaeth y prosiect yn barod, mae pum contractwr lleol wedi gallu parhau i weithio gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol diogel, gan alluogi Pwyth mewn Pryd i gefnogi'r busnesau lleol hyn yn ystod y cyfnod anodd hwn.

I gymryd rhan neu am ragor o wybodaeth am brosiect Pwyth mewn Pryd, ewch i http://www.arfordirpenfro.cymru/pwyth-mewn-pryd neu cysylltwch â Matthew Tebbutt drwy ffonio 01646 624800



**J. D. JONES A'I GWMNI**

**CYFRIFWYR**

TŶ AUCKLAND, CRYMYCH

☎ (01239) 831493

71 STRYD FAWR, ABERGWAUN

☎ (01348) 873237

**TELERAU HYSBYSEBU**

**Y LLIEN GWYN**

**ACHLYSUROL**

Hysbys un colofn - £5

Hysbys dwy golofn -£8

Cwarter tudalen - £15

Hanner tudalen - £25

Tudalen gyfan - £50

**RHEOLAIDD**

**(10 rhifyn y flwyddyn)**

Hysbys un colofn - £25

Hysbys dwy golofn -£40

Cwarter tudalen - £60

Hanner tudalen - £80

**am wybodaeth pellach -**

**Meirion a Iona 01348 891 656**

# CWM GWAUN

**TEULUOEDD AR GYNNYDD**

Oddi ar 3ydd o Fehefin eleni, mae gan Simon a Kerry Turner, Tyriet wyth o wyrion ac wyresau. Dyna'r diwrnod pan anwyd Arwen Ailsa yn gyntaf anedig i'w mab Ben a'i wraig Christina sy'n byw yn Singapore.

Daeth John a June Lewis, Cysgod-y-Lan yn hen dad-cu a hen fam-gu ar Orffennaf 8fed eleni. Ganwyd Elis Arthur i Osian a Mared, sy'n byw yn Hundleton, ac mae'r chwaer fawr Mabli wrth ei bodd. Mae Osian yn unig fab i Hilary a'i gŵr Simon ac Elis yw gôr ŵyr bach cyntaf John a June.

Wythnos yn ddiweddarach, ar 16eg Gorffennaf, cynyddodd teulu Michael a Siân Morris, Tyriet hefyd. Dyna'r diwrnod y ganwyd Ianto i'w merch Sara a'i gŵr Nathaniel, ac mae'r chwaer fawr Miriam yn dwlu arno. Mae Ianto hefyd yn or-ŵyr bach arall i Leila Evans, Mynyddmelin.

Hefyd wedi dod yn fam-gu dros yr Haf mae Ann Stuart, Pen-bont. Croeso i'r byd i Isabelle, merch fach Sam ac Alisa Stuart.

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i'r holl deuluoedd.

**PEN-BLWYDDI ARBENNIG**

Dathlodd Euros Lloyd, Penbont a Lloyd Phillips, Treddafydd eu pen-blwyddi'n 50 oed yng Ngorffennaf ac Awst. Bydd Hedd Davies, Tŷ Gwyn a Hefyn Reed, Ymyl-y-coed yn cyrraedd y garreg filltir honno yn ystod Hydref a Thachwedd. Bydd Sarah Davies, Kilkiffeth, yn cyrraedd Oed yr Addewid ym mis Hydref; tra bydd rhaid i Donald Howells, Henllan aros tan ganol mis Tachwedd cyn dathlu ei ben-blwydd yntau'n 80 oed. Dathlodd Rebecca Thomas, Brynawel, Ffordd y Cilgwyn, ei phen-blwydd yn 90 oed ddiwedd Medi. Llongyferchir pob un ohonynt ar gyrraedd y cerrig milltir hyn yn eu bywydau.

**DOD I OED**

Llongyfarchiadau mawr i Cerys Davies, Tŷ Gwyn ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Fedi 11eg; a Steffan Wilson, Fagwrlas, ar gyrraedd yr un oed ar Fedi 12fed. Pob dymuniad da i'r ddau wrth iddynt gamu mewn i fyd yr oedolyn.

**UGAIN MLYNEDD O SGANIO**

Wrth gyrraedd ei ben-blwydd yn 50 oed, bydd dathliad dwbl gan Hedd Davies, Tŷ Gwyn, gan y bydd hefyd, mewn rhai wythnosau ar ôl hynny, yn dathlu ugain mlynedd oddi ar iddo fentro mewn i'w fusnes Sganio Defaid. Llongyfarchiadau ar gyrraedd y garreg filltir honno hefyd, a boed i'r busnes barhau i fod yr un mor llwyddiannus am flynyddoedd i ddod.

**PRIF SWYDDOGION**

Llongyfarchiadau mawr i Cerys Davies, Tŷ Gwyn ar gael ei hethol yn ddirprwy brif ferch yn Ysgol y Preseli. Mae Cerys yn un o dri o gyn disgyblion Ysgol Llanychllwydog a etholwyd i fod yn brif swyddogion yn eu hysgolion eleni. Cafodd Phebe Salmon ei hethol i fod yn ddirprwy brif ferch a Rhys Evans yn ddirprwy brif fachgen yn Ysgol Bro Gwaun.

**YMDDEOLIAD HAPUS**

Wedi dros ugain mlynedd fel gofalwraig a glanhawraig yn Ysgol Llanychllwydog, mae Linda Davies, Tŷ Mawr, wedi penderfynu rhoi'r allwedd a'r dwster o'r neilltu. Ymddeoliad hapus Linda!

**ARHOLIADAU**

Llongyfarchiadau mawr i Morgan Evans, Blaenpalis ar lwyddo'n anrhydeddus yn ei Arholiadau Lefel A; Tomos Vaughan, Penlan Uchaf ar lwyddo yn yr arholiadau TGAU; a Cerys Davies, Tŷ Gwyn ac Owain Howells, Buarth Gwyn, ar lwyddo yn eu harholiadau AS. Pob lwc wrth iddynt barhau â'u hastudiaethau neu ddilyn llwybrau newydd yn eu bywydau.

**PRIODAS AUR**

Llongyfarchiadau i Dilwyn a Suzanne Vaughan, Llannerch ar hanner can mlynedd o fywyd priodasol ar ddiwedd mis Awst. Pob dymuniad da wrth gamu ymlaen am y Diemwnt!

**CLEIFION**

Dymuniadau da i Arthur Reed, Delnant a dreuliodd gyfnodau yn Ysbytai Llwynhelyg a Threforys yn ystod yr Haf; ac i Andrew Thomas, Awel Eryr ac Aurelia Ladd, Dolrannog a fu'n glaf yn Ysbyty Llwynhelyg. Yr un dymuniadau da i Robert Vaughan, Penlan Uchaf a dorrodd ei ysgwydd yn dilyn damwain; ac i nifer eraill o drigolion y Cwm sydd wedi bod yn ddigon anhwylus yn ddiweddar.

**CYDYMDEIMLWN Â:**

Holl gysylltiadau teuluol y ddiweddar Joyce Vaughan, Croesgoch. Roedd Joyce yn wraig i Cledwyn Vaughan, Llannerch gynt ac felly roedd ganddi nifer o gysylltiadau yn y Cwm.

**JABES A CHAERSALEM**

Wedi cyfnod o rai misoedd o gapeli ar gau oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd arnom, mae'n ymddangos fod peth goleuni ar ben draw'r twnnel ac y byddwn, ond i ni ddilyn y canllawiau, yn gallu ail ymuno fel cynulleidfaoedd. Fe fydd aelodau Caersalem a Jabes yn uno mewn oedfa yn Jabes ar Hydref 18fed ac yng Nghaersalem ar Dachwedd 15fed, y ddwy oedfa am 10.30 y bore. Gobeithir hefyd cynnal oedfa unedig i'r cylch yn ystod mis Rhagfyr os fydd y sefyllfa'n caniatáu. Wrth reswm bydd yn ofynnol cadw pellter o ddau fetr rhwng unigolion o wahanol aelwydydd drwy gydol yr amser yn yr adeilad. Bydd diheintydd yn y cyntedd a gofynnir i bawb ei ddefnyddio ar y ffordd i mewn ac allan o'r capel. Bydd yn ofynnol hefyd i bawb i wisgo gorchudd wyneb neu fwgwd ac i beidio dod a dim diangen gyda hwy i'r oedfa fel llyfrau emynau, gan na fydd canu am y tro. Bydd blwch casglu yn y cyntedd i gyfrannu ar y ffordd mas a gofynnir i bob un roi'r cyfraniad mewn amlen.

**AR YR AWYR**

Drwy gydol y cyfnod clo mae radio a theledu wedi cadw i fynd ac wedi difyrru niferoedd o bobl ar adeg anodd ac ymhlith y rhai a fu'n serennu yr oedd unigolion o'r Cwm unwaith eto! Bu Marian Phillips, Y Bwthyn, yn sgwrsio gydag Aled Scourfield ar ran Cymdeithas y Gwartheg Duon yn ystod darllediadau am y Sioe Frenhinol Amaethyddol. Bu hefyd yn sgwrsio am yr arwerthiant ar-lein. Yna, yn goron ar y cyfan, cafodd ei chyfweld yn fyw, drwy'r we, ar raglen y Sioe ar ôl i'r grŵp o Wartheg Duon ddod i'r brig yn y Sioe Rithiol.

Ar y newyddion yr ymddangosodd Robert Vaughan, Penlan Uchaf wrth iddo sôn am agor y gerddi i fyny'n dilyn y clo mawr.

**CARNIFAL A MABOLGAMPAU**

Llongyfarchiadau mawr i bwyllgor Carnifal a Mabolgampau'r Cwm am lwyddo i gynnal carnifal rhithwir drwy gyfrwng tudalen Facebook gan sicrhau llawer o hwyl i nifer fawr o bobl - yn gystadleuwyr ac yn wylwyr.

**Gwelir un o'r trefnwyr yn y llun isod. Mae'n lun sy'n adrodd cyfrolau am brofiad pawb yn ystod y 'cyfnod clo'! Llongyfarchiadau Ruth am ddod yn gyntaf yn yr adran ffotograffiaeth i gystadleuwyr dros 16 oed.**

